ECO'R WYDDFA

Rhif 174 Rhagfyr 1991 Pris 25c.

CWMWL YN CODI

ADDEWID AM DDYFODOL LLWYDDIANNUS

NI FYDD *ECO'R WYDDFA* YN DOD I BEN GYDA RHIFYN Y NADOLIG. Dyna oedd y neges obeithiol wedi cyfarfod yn Neuadd Ysgol Brynrefail ar Dachwedd 8.

Meddai cadeirydd y cyfarfod, Arwel Jones, Penisarwaun, Golygydd cyntaf yr *Eco*, 'Mae'r cwmwl wedi dechrau codi ac mae addewid am ddyfodol llewyrchus i'r papur'.

O blith yr hanner cant oedd yn bresennol yn y cyfarfod cafwyd gwirfoddolwyr newydd i'r rhan fwyaf o swyddi allweddol. Addawodd y swyddogion presennol aros wrth eu gwaith nes bod y bobl newydd wedi cael eu traed danynt.

Un o'r pethau mwyaf gobeithiol oedd nifer y bobol ifanc oedd yno, cyfran helaeth ohonynt yn aelodau o'r chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail, oll yn frwd i helpu'r papur yn ei argyfwng.

Yn y cyfarfod eglurodd y swyddogion natur eu dyletswyddau a chafwyd trafodaeth gyffredinol ar waith yr *Eco*. 'Roedd y Golygyddion yn arbennig o falch o'r cymorth a gynigiwyd. Arnynt hwy y mae'r baich wedi disgyn drymaf.

Cynigiwyd help hefyd i'r Ffotograffwyr, y Dosbarthwyr, y Trefnydd Ariannol a'r Trefnydd Hysbysebion; cafwyd dau Drefnydd Plygu a chymorth i gynhyrchu Tudalen y Plant a'r Dudalen Chwaraeon. Cam pwysig iawn oedd cytuno ar yr egwyddor o Bwyllgor Llywio i gadw golwg cyffredinol ar waith yr *Eco* a bod yn gefn i waith y swyddogion.

Medd Arwel Jones, 'Mi fydd darllenwyr yr *Eco* yn gweld llawer o enwau newydd yn ymddangos dros y misoedd nesaf ar Restr y Swyddogion ar dudalen 2. Ar ran pawb fu'n gweithio i'r *Eco* dymunaf ddiolch i'r bobl newydd am gynnig eu help'.

Os oes rhywun am gynnig help na fedrodd ddod i'r cyfarfod yna mae croeso iddyn' nhw gysylltu ag unrhyw un o swyddogion yr *Eco*. Mae yna'n dal rai swyddi heb eu llenwi, a swyddi yn aros i'w creu. Po fwyaf sy'n helpu, mwya'n y byd ydi'r hwyl, mwya'n y byd ydi'r llwyddiant a lleia'n y byd ydi'r baich.

Yn ystod y cyfarfod mynegodd tua dwsin o bobl ddiddordeb mewn ymgymeryd â rhai agweddau o olygu'r *Eco*. Trefnwyd cyfarfod arbennig ar Dachwedd 20 iddynt gael trafod y golygu gyda'r swyddogion presennol — a gwyntyllu rhai cynlluniau golygyddol ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn hyn daeth nifer ohonynt ynghyd i Festri Pontrhythallt, Llanrug, i weld y rhifyn hwn yn cael ei osod at ei gilydd.

Llun uchod: y criw sy'n barod i weithio dros yr Eco ar ddechrau'r cyfarfod yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Tachwedd 8.

GWYRFAI AR Y BRIG

Lowri Angharad Roberts a Lowri Williams, capteiniaid Gwyrfai y tŷ aeth a chymaint o'r prif wobrau eleni yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail, yn derbyn cwpan y tŷ buddugol gan y Prifathro Mr John Grisdale (uchod).

Ond o dŷ Eryri y daw Glenda Jones (dde), sy'n parhau'r traddodiad hir o ferched yn ennill y gadair. Rhagor o fanylion a lluniau'r Eisteddfod tu fewn.

Holl luniau'r Eisteddfod Ysgol drwy garedigrwydd Arwyn Roberts.

PRYSURDEB Y CASGLU AT BLANT MEWN ANGEN

Dan oruchwyliaeth (un) llygad graff Pudsey'r arth mae rhai o blant Ysgol Gynradd Llanrug yn brysur yn cyfri'r prês a gasglwyd ganddynt ar gyfer Plant Mewn Angen. Trowch i newyddion yr ysgol am y stori'n llawn.

Caiff y llun gynrychioli'r holl weithgarwch codi arian a fu yn y fro eleni.

HYSBYSEBION

Rhifynnau'r hysbysebion yw hwn a'r nesaf. Ynddynt mae pobl busnes y fro yn dymuno cyfarchion y tymor i ni, eu cwsmeriaid gydol y flwyddyn. Ein diolch ninnau iddynt hwythau am gefnogi'r Eco.

Cofiwch y bydd un rhifyn arall cyn y Nadolig. Felly, deunydd i law yn brydlon, os gwelwch yn dda.

ECO'R WYDDFA

RHIF 173
RHAGFYR 1991

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR
GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:
Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
GOLYGYDD ERTHYGLAU:
Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt (870760)
GOLYGYDD CHWARAEON:
Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)
ECO'R IFANC:
Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn, Tanycoed (C'fon 5668)
DYDDIADUR Y MIS:
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (Waunfawr 200)
FFOTOGRAFFWYR:
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (C'fon 77263)
TREFNYDD HYSBYSEBION:
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
TREFNYDD GWERTHIANT:
Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
TREFNYDD ARIANNOL:
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug (C'fon 4778)
GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran, (Portdinorwig 670726)
BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)
CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (Llanberis 872275)
DEINIOLEN: W O Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (Llanberis 871259)
DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes Eilian (870773)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri, 870491.
LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)
NANT PERIS: Mrs Ann Pleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (Llanberis 872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael y Bryn. (872 276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, RHAGFYR 19
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN
RHAGFYR 9
os gwelwch yn dda

Llythyrau

Gwahoddiad i Eisteddfodau Cymru

Annwyl Olygydd,
Os yw'r galw yn cyfiawnhau hynny, y mae'n fwriad gan yr Eisteddfod Genedlaethol wahodd swyddogion Eisteddfodau Cymru i gyfarfod a gynhelir yn y gwanwyn i drafod materion o ddiddordeb cyffredinol, megis:

1. Sut gall pwyllgorau Eisteddfodau Cymru gydweithio â'i gilydd er lles?

2. Sut gall yr Eisteddfod Genedlaethol fod o gymorth i Eisteddfodau Cymru?

A wnaiff swyddogion unrhyw Eisteddfod sydd am fod yn rhan o'r drafodaeth hon gysylltu â mi cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda, yn Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol, 40 Parc Tŷ Glas, Llanishen, Caerdydd CF4 5WU, neu ffoniwch Caerdydd (0222) 763777.

Yn gywir iawn,
EMYR JENKINS,
Cyfarwyddwr
Eisteddfod Genedlaethol Cymru

A hoffech chi . . .?

Mae Mici Plwm a chriw 'Fe Hoffwn I' yn ôl gyda chyfres arall o raglenni gwireddu breuddwydion ar S4C ym 1992.

Yn dilyn llwyddiant y gyfres gyntaf, mae'r cynhyrchwyr ar hyn o bryd yn chwilio am bobl â breuddwyd / dyhead anghyffredin a diddorol i'w cynnws yn yr ail gyfres i'w recordio yn fuan ym 1992.

A ydych chi eisiau cyflawni rhyw weithred arbennig? Cyfarfod rhywun enwog? Ymddangos ar y teledu mewn cyfres boblogaidd? Rhoi syrpreis i aelod o'r teulu neu ffrind agos? ***Dyma'ch cyfle!***

Os oes gan ddarllenwyr Eco'r Wyddfa *ddiddordeb, ysgrifennwch yn awr — 'Annwyl Mici, Fe hoffwn i . . .' i'r cyfeiriad yma:* ***Mici Plwm, Fe Hoffwn I, Cwmni'r Castell Cyf., 12 Ffordd Carlton, Bae Colwyn, Clwyd LL29 8RS.***

ADLONIANT

'FI a Mr LOUIGI'
gan Mair Gruffydd

Noson allan i'r teulu i gyd . . .

Yn ystod misoedd Rhagfyr a Ionawr bydd Bara Caws yn teithio ledled Cymru gyda chynhyrchiad newydd sbon — 'Fi a Mr Louigi' — sioe sy'n addas i'r teulu i gyd.

Bydd y sioe yn dilyn ffantasîau Deborah Williams, plentyn deg oed, a'i hargraff hi o'r byd o'i chwmpas. Drwy gymorth hud y mae Deborah yn sylwi ar y byd o'i chwmpas ac yn sylweddoli bod y straeon Tylwyth Teg yn hollol iawn — mae'r byd yn llawn o wrachod hyll, o gestyll hudol, o gewri tew ac ambell ffŵl.

OND, gan Merlin y mae'r gair olaf: 'Mae bywyd yn gyffrous, yn rhyfeddol ac yn wych ond, *daliwch i chwilio* ac fe ddowch o *hyd* i'r hyn sydd werth ei gael!'

Gellwch fwynhau'r sioe yn **Ysgol Brynrefail, Llanrug, nos Fercher, Rhagfyr 11 am 7.30.** I archebu tocynnau cysylltwch â Linda Brown ar Bangor 355579.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Ceredigion, Aberystwyth
Maes Carafanau'r Eisteddfod

Mae Is-bwyllgor Carafanau yr Eisteddfod wedi bod yn brysur ers misoedd bellach yn gwneud trefniadau ar gyfer darpariaethau'r maes hwn ac mae paratoadau mewn llaw i dderbyn rhwng 800 a 1,000 o garafanau. Golyga hyn y bydd efallai rhwng dwy neu dair mil o bobl yn cartrefu ar y maes yma dros gyfnod yr Eisteddfod, a'n bwriad yw gwneud eu harosiad yn un hwylus a hapus. Yn ogystal â cheisiadau am le ar y maes carafanau 'rydym hefyd wedi derbyn nifer o ymholiadau i logi carafanau i'w gosod ar y maes. Felly, os oes gennych garafan ar gael i'w gosod am y cyfnod yma, byddem yn falch o glywed oddi wrthych. Gallwch gysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod, 6 Y Stryd Fawr, Aberystwyth. (0970) 625685.

Cymhorthdal Incwm

Budd-dâl yw Cymhorthdal Incwm i helpu pobl 18 oed a hŷn, sydd ag incwm o dan swm penodol, ond fe all rhai 16 neu 17 oed fod yn deilwng o dan amgylchiadau arbennig. Nid yw'n dibynnu ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae hawl person neu deulu i'r budd-dâl yn cael ei benderfynu drwy weithio allan faint o arian y maent angen i fyw arno bob wythnos, didynnu rhai mathau o incwm, os yn daladwy, a thalu'r gwahaniaeth fel Cymhorthdal Incwm.

Mae ychwanegiadau i'w cael ar y budd-dâl i'r anabl, i bensiynwyr ac i eraill, ac fe ellir caniatau swm at y llôg ar forgais.

Gellir ei dalu yn ychwanegol i incwm neu fudd-daliadau eraill, neu yn ychwanegol i enillion rhan-amser. Nid yw fel rheol yn daladwy, fodd bynnag, os yw'r hawliwr neu'r cymar yn gweithio 24 awr neu fwy yr wythnos, neu os oes cynilion dros £8,000.

Mae help at y rhent a'r Tâl Cymunedol i'w gael yn sgîl Cymhorthdal Incwm, ynghyd â chinio ysgol am ddim a help gyda chostau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS charges).

Os ydych angen ffurflen gais, neu mwy o wybodaeth ar Gymhorthdal Incwm neu unrhyw fater Nawdd Cymdeithasol arall, ffoniwch **0800 289 011.** Ni fyddwch yn talu am yr alwad, mae'n hollol ddi-dâl.

Medalau Thomas Gee a Madam Doris Bevan Evans

Gwahoddir ceisiadau am y Medalau uchd oddi wrth aelodau hŷn yr Ysgol Sul, hynny yw, aelodau sydd dros 80 oed.

Y mae un amod pendant yn ôl y ffurflen: 'A yw'r ymgeisydd yn **parhau i fynychu'r Ysgol Sul**?'

Rhaid cadw'n dynn at yr amod hwn. Tristwch ydyw gorfod gwrthod ceisiadau sy'n cyfeirio at ffyddloniaid oes, ond sy'n awr yn methu dod oherwydd llesgedd a henaint. Trueni na fuasem wedi derbyn y ceisiadau hyn yn nyddiau nerth ac iechyd.

Y mae oedran y rhai sy'n arfer derbyn y Medalau tua 84 oed. Y mae ffurflen gais ar gael oddi wrthym, ond rhaid dychwelyd y ffurflen **erbyn 1 Ionawr 1992.**

Adran y Gogledd: Y Parch J. Haines Davies, 'Goleugell', 24 Ffordd Cadwgan, Colwyn LL29 9PY.

RHODDION

£3: Gwen Griffith, Fron, Deiniolen.
£2: Colin a Sandra Roberts, Rhyd Eryri, 6 Stryd-yr-afon, Trefor; Mrs N. Williams, Baladeulyn, Newton St., Llanberis; John a Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig; Mrs Percy Williams, 3 Llys y Gwynt, Penisarwaun.
£1: Jonathan Richardson, Llys

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646



Y SGWÂR, LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.
Ffôn:
Caernarfon 2898 (dydd)
Caernarfon 76285 (nos)

MAID (Mastectomy Aid) CAERNARFON

Ers tro bellach mae grŵp MAID (Mastectomy Aid) Caernarfon wedi bod yn gweithio'n galed i geisio codi'r swm anferthol o £40,000 er mwyn prynu offer arbennig i Uned Famograffit Ysbyty Gwynedd.

Sawl ymgyrch gyffelyb sydd ar dro meddech, a phob un angen arian. Ond teimlai aelodau MAID fod y peiriant y bwriadant ei brynu, sef *'Utrasound Scanner'* yn chwyldroadol mewn gwaith diagnostig gan ei fod yn gallu darganfod canser yn gynnar iawn ac yn sicr felly o allu achub bywydau. Mae cymaint o ferched heddiw yn dioddef o ganser o'r fron ac mae'r peiriant hwn nid yn unig yn darganfod yr afiechyd yn fuan ond yn gallu gwahaniaethu ar unwaith rhwng tiwmor peryglus a thiwmor diniwed, yn gallu lleoli'r tiwmor yn union yn ogystal â chanfod os yw'r canser wedi dechrau datblygu mewn rhan arall o'r corff.

Gan fod y cynllun *'Breast Cancer Wales'* newydd ei lansio yn Llandudno gan obeithio perswadio merched dros 50 i gael mamogram (pelydr-X ar y fron) yn rheolaidd, mae'n hanfodol bwysig fod yr uned famograffi newydd a agorwyd yn Ysbyty Gwynedd y llynedd i ddarganfod clefyd o'r fron yn cael yr adnoddau angenrheidiol yma i gydweithio â'r cynllun newydd a'u galluogi i wneud eu gwaith yn drylwyr ac effeithiol er lles y gymdeithas.

Erbyn hyn y mae MAID wedi cyfrannu £2,500 at y gronfa arbennig yma ac mae yna £2,000 arall wedi ei dderbyn oddi wrth fudiadau eraill, ond, mae llawer o ffordd i fynd eto. Gan mai grŵp cymharol fychan yw MAID — dim ond rhyw bymtheg o aelodau, maent yn ddibynnol iawn ar gefnogaeth y cyhoedd. Eu menter nesaf tuag at y gronfa yw **Ffair Nadolig yn Ysbyty Gwynedd, ddydd Sadwrn, Rhagfyr 7fed, am 2 o'r gloch.**

Ers pan sefydlwyd MAID saith mlynedd yn ôl mae'r grŵp wedi codi dros £20,000 ac mae hyn (ar wahân i un cyfraniad i Ysbyty Clatterbridge) wedi ei wario yng Ngwynedd gan roi cymorth i gleifion canser, un ai drwy brynu offer i'r ysbyty neu i wasanaeth gofal cymdeithasol.

Ar wahan i gasglu arian mae MAID hefyd yn cynnig cefnogaeth i gleifion canser yn gyffredinol trwy gynnig ymweliadau â chleifion (yn enwedig rhai sydd wedi dioddef canser y fron) i gael sgwrs a cheisio eu cysuro ac maent hefyd yn ymgyrchu yn gyson i geisio gwell adnoddau a chyfleusterau i gleifion canser Gwynedd.

Yn ogystal maent yn cynnig cymorth ariannol i gleifion canser sydd mewn angen arbennig ar yr amod fod y ceisiadau yma yn cael eu gwneud trwy Ysbyty Gwynedd neu'r gweithwyr cymdeithasol.

Os oes rhywun angen mwy o wybodaeth cysylltwch â'r ysgrifennydd, Kit Jones, Llain Meddygon, Caeathro, Caernarfon. Ffôn: 673166.

Uchod: grwpiau Gwyrfai ac Eryri — cyd-fuddugol yng nghystadleuaeth y sgets, ac isod, Caryl Owen, Elidir, enillydd y dawnsio disgo unigol, blwyddyn 1/2, yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

Lluniau drwy garedigrwydd Arwyn Roberts.

NEWID YN Y PATRWM

Yn gynnar yn y flwyddyn newydd, daw dipyn o newid i batrwm darlledu Radio Cymru.

Bydd mwy o oriau, darlledu drwy'r dydd yn ddi-baid ar Sul a chychwyn cynharach, i enwi ond ychydig.

Ac wrth sôn am gychwyn cynharach bydd Dei Tomos, y darlledwr o Nant Peris, yn codi cyn toriad gwawr i agor drysau'r gwasanaeth o fore Llun i fore Gwener am chwech o'r gloch. Ond mae Dei yn godwr bore beth bynnag a bydd wrth ei fodd yn sgwrsio ag eraill o gyffelyb fryd ac yn ail-gydio yn ei hen ddawn fel troellwr. Mae'n addo rhaglen ddifyr fydd yn agor y llenni'n raddol, fel petai. Cân a sgwrs felly gyda Dei o chwech tan 8 pan fydd e'n trosglwyddo'r awennau i Hywel Gwynfryn — sy'n dod nôl yn y bore, ond ar awr 'gallach' efallai — yn syth ar ôl Rhaglen Newyddion Wyth am 8.20.

Cyfansoddwr Ifanc

Gwelir enw Iestyn Evans, Boncath, Dyfed, yn fuddugol am gyfansoddi emyn dôn yn Eisteddfod Gwaun Gynfi, Deiniolen, eleni. Yn anffodus ni fu'n bosibl ei rybuddio fel y gallai fod yn bresenol i dderbyn y cwpan a'r anrhydedd ar nos Sadwrn yr Eisteddfod. Canmolwyd safon y gystadleuaeth o chwe thôn gan y beirniad, Mr Walter Glyn Davies, Amlwch, chwaraewyd y dôn fuddugol, 'Teifi', i'r gynulleidfa gan y gyfeilyddes Mrs Annette Bryn Parri. Teimlir dyletswydd i wneud y sylw arbennig yma oherwydd mai 14eg mlwydd oed yw Iestyn, un o ddwy dôn a gynnigiwyd ganddo oedd 'Teifi'. Seiliwyd y gystadleuaeth ar emyn buddugol 1990 o eiddo Mr John Williams, Erw'r Delyn, Llanerchymedd, sydd bellach yn ei wythdegau.

Disgybl y bedwaredd flwyddyn yn Ysgol Uwchradd Aberteifi yw Iestyn ac mae hefyd yn astudio cerdd yn allannol. Bu'n organydd y capel ers yn naw oed ac mae galw mawr am ei wasanaeth fel cyfeilydd ac unawdydd piano. Mae rhestr ei lwyddiant ar y piano mewn eisteddfodau yn faith, ef oedd yn fuddugol o dan 15eg oed yng ngŵyl Genedlaethol Yr Wyddgrug.

Dyma'r tro cyntaf iddo gipio'r wobr gyntaf am gyfansoddi, er iddo ddod yn ail dan ddeunaw oed yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd, ac yn ail ddwy waith mewn eisteddfodau eraill.

Dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol gan obeithio ei weld ar lwyfan Gwaun Gynfi yn fuan. Byddwn yn siwr o glywed ei enw yn aml yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

ERYRI ORGANIG
LLANFAGLAN
Ffôn: C'fon 76905
Rhwng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG
★ Gwrtaith ★ Bwydydd Hylif
★ Offer atal Pla a Chwyn ★Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith

CANOLFAN GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR
Ffôn:Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concrid a Phren
Planters Concrid a Phren
Corachod

Dyma'r stori enillodd y Gadair i GLENDA JONES o Lanberis yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

DIANC!

Safai'r foneddiges yn y ffenestr fawr yn edrych i lawr i'r stryd. Roedd yn ddiwrnod dwl, gwlyb, a'r bobl islaw yn cerdded gyda rhyw awgrym o anobaith yn eu hosgo. Pawb yn eu cotiau glaw yn ceisio rhuthro o un drws i'r llall, o gysgod i gysgod. Syllai'r foneddiges arnynt am hir. Pob un ohonynt yn ceisio dianc rhag y glaw, a hithau, yn ei charchar unig yn breuddwydio bob dydd am gael dianc o'i charchar; y tŷ mawr tywyll, lle treuliodd ddeng mlynedd diwethaf ei bywyd, a'r deng mlynedd nesaf hefyd, os byw ac iach.

Allan yn y stryd cerddai pawb gyda'i gilydd. Un yn cerdded wrth gynffon y llall; un ai i geisio cadw'n sych neu gan fod yr un o'i flaen yn cerdded yn araf, a'r llall yn ysu i'w basio. Ond nid oedd golwg unig arnynt. Anobeithiol efallai. Pawb eisiau cyrraedd y car cyn iddynt gael tocyn am barcio'n anghyfreithlon, cyrraedd y siopau i gael rhywbeth i de cyn iddynt gau; ond yn cyrraedd yn rhy hwyr, ac yn gorfod talu'r bil, neu byw ar frechdan jam i swper.

Ond nid oedd problemau fel hyn yn poeni'r foneddiges. Gormod o amser ar ei dwylo oedd ganddi hi. Ni allai ddianc o'r tŷ mawr i'r stryd y tu allan hyd yn oed, dim cyfle i wneud ffrindiau newydd, nac ychwaith i gadw cysylltiad â'r hen rai. Roedd ganddi bopeth allai arian ei brynu, ond ni all arian brynu rhyddid, a dyna beth oedd ei hunig obaith mewn bywyd. Rhyddid i fynd ble y mynnai heb feddwl dim am neb.

Roedd y forwyn yn dod i'w gweld bob bore, ac weithiau cai ymwelwyr gyda'r nos hefyd. Byddai'r morwynion yn ei gwisgo mewn gisgoedd drud, prydferth, yn coluro ei hwyneb ac yn cribo ei gwallt yn donnau euraidd dros ei hysgwyddau. Byddai'r foneddiges wedyn yn barod i wynebu ei hymwelwyr am weddill y dydd, i wenu'n garedig arnynt, a gwrando arnynt yn sgwrsio'n ddibaid. Testun eu sgwrs bob dydd fyddai cyfoeth y foneddiges. Byddai pawb wedi eu swyno gan yr holl emau gwerthfawr, ei dillad drud a'r holl gelfi gwerthfawr yn ei chartref; pethau na olygai ddim i'r foneddiges. Nid oedd eisiau gwybod beth oedd eu barn hwy ar ei chelfi a'i thrysorau, ond yn hytrach, roedd eisiau clywed am eu bywydau hwy. Faint o blant, ble roeddent yn gweithio, oeddent wedi priodi? Er ei bod yn eu gweld bron bob wythnos, ni wyddai'r manylion bach pwysig yma amdanynt. Y cwbl a wyddai oedd eu hoffter o bopeth gwerthfawr.

Unwaith neu ddwywaith bob blwyddyn fe gai fwy o ymwelwyr nag arfer, pan ddoi pawb i'w gweld, pob un gyda gwên fawr, a'u llygaid ymhobman, fel dyn yn gwylio allan am blismon cyn rhedeg i ffwrdd gyd chynnwys ariannol un o'r banciau cenedlaethol. Pob un eisiau dianc o'u byd hwy am ychydig, a'i newid am fyd cyfoethocach. Byddai bron pawb yn mynd adref gyda rhywbeth yn eu llaw. Rhyw anrheg Nadolig nad oedd y foneddiges ei angen, rhywbeth i roi rhyw awgrym fach o fywyd llewyrchus i bawb.

Ar adegau fel hyn byddai'r foneddiges yn falch o weld cefnau ei hymwelwyr neu ei 'ffrindiau'. Ffrindiau a feddyliai eu bod yn gwneud ffafr a'r foneddiges drwy fyn a rhai o'i anrhegion adref, allan o'i ffordd. Pwy sydd angen mwy o ddillad na sydd yna o oriau yn y dydd, neu ddiwrnodiau yn y flwyddyn? Pam ddylai gael cymaint o ddillad, a hithau'n gaeth i'r tŷ; heb obaith o fynd allan i unrhywle, dim gobaith o ddianc? Ond ni allai wynebu meddyliau fel yn yn aml. Sut le fuasai byd heb obeithion, heb freuddwydion? Ni fuasai bywyd yn werth ei fyw wrth wybod na chai fyth ddianc o'r tŷ mawr tywyll. Wrth freuddwydio, gallai greu bywyd arbennig iddi ei hun, ac ni all neb ddinistrio'r freuddwyd honno, roedd y freuddwyd yn saff yn ei meddyliau.

Edrychodd allan drwy'r ffenestr eto. Ar wahan i'r siop groser ar y gornel roedd y siopau wedi cau erbyn hyn, a'r stryd yn ddistaw. Pawb wedi mynd yn ôl i'w cartrefi, yn ôl at y tân, i edrych ar freuddwydion rhywun arall ar rhyw raglen deledu. Cyfle i ddianc o'u problemau a boddi ym mreuddwydion perffaith rhywun arall. Ond roedd ei bywyd hi yn bell o fod yn berffaith.

Goleuai'r lamp ar gornel y stryd rhyw ran fach o'r lôn, gan daflu cysgodion i bob cwr o'r stryd. Gwelai'r olygfa yma bron bob nos, ac roedd y cysgodion bellach fel hen ffrindiau. Gwyddai yn iawn beth oedd pob cysgodyn, ac fe fyddai'r patrwm yn cael ei dorri a'i ddrysu'n llwyr pe bai rhywun yn pasio, neu gar wedi aros ar ochr y stryd.

Dechreuodd deimlo'n ansicr wrth weld car yn aros wrth ochr y siop groser ar y gornel. Dyna'r patrwm wedi ei dorri unwaith eto. Pam gwneud hyn iddi hi, pam na allent fynd i sbwylio golygfa rhywun arall? Nid oedd hyn yn deg. Ceisiodd gysuro ei hun drwy ddweud wrth ei hun y byddent yn gyrru i ffwrdd mewn ychydig eiliadau, gan eu bod ar goll; ond daeth dau ddyn allan o'r car ac aethant i fewn i'r siop. Teimlai'n ddig dros ben gyda'r dynion yn y car, ond, cysurodd ei hun drwy ddweud na fyddent yno yn hir iawn. Ceisiodd dynnu ei meddwl oddi wrth y car, ond ni allai anwybyddu'r fath sŵn a ddaeth o'r siop. Clywodd sŵn sgrechian aflafar, a'r golau coch uwchben y siop yn fflachio'n wyllt, a'r ddau ŵr yn rhuthro yn ôl i'r car. Gwelodd berchennog y siop yn cerdded i'r drws, ond trodd un o'r gwŷr ifanc a'i saethu yn farw. Edrychodd y foneddiges yn syn, a gyrrodd y car allan o gysgol y lamp i'r nos.

Ni cheisiodd y foneddiges alw am help, roeddent wedi dianc. Wedi cymryd yr arian, wedi lladd, ac wedi dianc. Beth allai hi ei wneud? Y cwbl wnaethant oedd rhywbeth a oedd yn amhosibl iddi hi. Ond llad? Oedd rhaid lladd y gŵr druan? Ac yntau heb wneud dim o'i le. Ond allai hi wneud dim.

Y bore canlynol daeth y ddwy forwyn i'r ystafell fel arfer i wisgo'r foneddiges yn ei gwisg newydd. Canolbwynt eu sgwrs hwy oedd Mr Jones druan, y gŵr a gafodd ei saethu'n farw neithiwr.

'Goeliwch chi na welodd neb mo'r peth yn digwydd? Mae'r heddlu wedi bod yn holi pawb yn y stryd, ond ŵyr neb beth ddigwyddodd. Wn i ddim beth sy'n digwydd i'r byd yma, mae'n gwaethygu bob dydd.'

Ni welodd neb y peth yn digwydd. Sut allai'r foneddiges ddweud? Ni allai hi ddianc. Roedd wedi ei charcharu fel mewn model mewn ffenestr siop ddillad fawr. Petai ond yn gallu dianc o'r corff clai â'i caethiwai.

'Mae'r hen fodel yma yn dechrau mynd yn hen ac yn fler,' meddai'r forwyn. 'Mae'n hen bryd i'r cwmni yma brynu un newydd.' Edrychodd y ddynes arall ar y foneddiges. 'Rwy'n siŵr y buasai gan hon straeon pwysig i'w dweud petae yn gallu siarad!'

Efallai y buasai, ond a fuasai'r cyhoedd eisiau gwybod am ddioddef dibwrpas Mr Jones druan, a laddwyd oherwydd awydd dau ŵr i ddianc heb gael eu hadnabod?

DRAENOG

Fel arfer, cyn gwario'n sylweddol ar ail-wneud cegin, mae'n gwneud synnwyr i sicrhau bod yr hen beipiau, o dan y lloriau newydd, mewn cyflwr da. Mae'n amlwg nad ydynt yn dysgu llawer yn ein hysgolion y dyddiau yma. Lwcus bod plymar yn byw dros ffordd a drws nesa'!

SAIN

PRESANTA SAIN !

SAIN

CASETIAU/FIDEOS/CDs

DAFYDD IWAN ★ BRYN TERFEL
Y SAITH RHYFEDDOD ★ JOHN AC ALUN
"BRANWEN" (Tudur Morgan) ★ GORAU SAIN
GOREUON HOGIA'R WYDDFA (CD) ★ EIRIAN A MEINIR
CÔR MEIBION LLANELLI ★ DYLAN DAVIES A'R CRIW
CÔR Y GLANNAU - (Carolau) ... a llawer mwy!

SDWNSH ★ HEFIN HUWS ★ COFI ROC
★ Y CYNGHORWYR

HWYL GYDA'R WYDDOR ★ CWM RHYD Y CHWADODS
SANG-DI-FANG ★ GUTO COL TAR YN Y GAREJ

FIDEOS:
MWY O GEFN GWLAD
POSTMAN PAT 2
FIDEO MAWR TOMOS Y TANC (1½ awr)
FIDEO'R ANHREFN

CEFNOGWCH EICH SIOP LEOL!

CATALOG NEWYDD SAIN/CRAI AR GAEL - £1

SAIN . LLANDWROG . CAERNARFON . GWYNEDD
(0286) 831.111

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Gwasanaeth Fideo Proffesiynol
JOHN BLIGHT
LLANBERIS 872209
Priodasau a phob achlysur arbennig arall Hefyd Ffilmiau Hyfforddi a Gwasanaeth newid CINE I FIDEO

Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri
am brisiau rhesymol
ELWYN PRITCHARD
Parc Padarn Llanberis
Ar agor Llun – Gwener 10.00 – 3.30
I gysylltu tu allan i'r oriau hyn ffoniwch
Llanberis 870922
neu **Bangor 351427**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb

CEIR ELIDIR
LLANBERIS 870449
Cerbydau preifat i'w llogi
Gwaith Contract
Pell ac Agos
Maes Awyr a Phorthladd
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb

SWYDDFA'R POST
NANT PERIS
Ffôn: Llanberis 870258
Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Lewyrchus i'n holl gwsmeriaid oddi wrth
Glyn, Ann, Neil a Karen Ann Price

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GLEN'S FOOTWEAR
Stryd Fawr
LLANBERIS 871470
Dymuna Glen a Wil ddiolch i'w holl gwsmeriaid am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
ODDI WRTH
KMP LLANBERIS
DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN
Dim bysus Mercher/lau 25, 26, Rhagfyr na Dydd Mercher 1 Ionawr

CYFARCHION NADOLIG
LLANBERIS

DYMUNA
MERVYN,
JENNIFER, HELEN,
GLENYS AC APPY

CASTLE GIFT SHOP
LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Diolch ichi am eich cefnogaeth

Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets, Melysion, Llyfrau a llawer mwy

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

Michal a Brigid
Moran a'r plant

Sea Fresh Chip Shop
Stryd Fawr
LLANBERIS
870425

Diolch am eich cefnogaeth
trwy gydol y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
oddi wrth

Vera, Haydn a John

SIOP CHIPS
SNOWDON VALLEY
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870659

SEREN
47 STRYD FAWR
LLANBERIS 871060

BWYDYD IACHUSOL
FFRWYTHAU A LLYSIAU YN
FFRES O'R FARCHNAD

TELEFLORIST

Diolch yn fawr am
eich cefnogaeth
trwy gydol y
flwyddyn. Nadolig
Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrthSue Lowe

odyn copr
parc padarn
llanberis

joe brown
CLIMBING & CAMPING EQUIPMENT SPECIALIST

AM ANRHEGION NADOLIG A WERTHFAWROGIR TRWY'R FLWYDDYN

- Sanau a Siwmperi trwchus
- Dillad Thermal
- Capiau a menyg gwlân
- Cotiau a sgidiau dal dŵr
- Siwmperi traddodiadol
- Dewis rhagorol o lyfrau ar deithio a mynydda

LLANBERIS
Ffôn: 870327
Hefyd yng Nghapel Curig
(tu cefn y post) 069 04 205

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb

joe brown

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth

W.J. DAVIES
MODURDY'R WYDDFA
LLANBERIS Ffôn: 870225

M.O.T.
Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

Hefyd

JOHN WHITE
THE BODY SHOP
LLANBERIS

★Trwsio wedi damweiniau
★Ailsbreio
★Curo paneli

Lle rhagorol i brynu eich anghenion Nadolig a phaned o goffi!

Llanberis Art & Craft

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda

Mae'r Coffee Pot yn agored Sadwrn a Sul tan y Nadolig

Ffôn: Llanberis 870597

LLANBERIS

Ffôn 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd Dda oddi wrth **LIN** a **JOHN**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH BAWB YN

AMGUEDDFA'R GOGLEDD AC AMGUEDDFA LECHI CYMRU

LLANBERIS 870636 A 870630

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH.
DEWCH I WELD
CYFLWYNIAD YNNI CYMRU

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GRAHAM A JEAN A PHAWB YN Y

PRINCE OF WALES

LLANBERIS 870708

Cwrw Blasus
Croso Cartrefol

Adloniant:-
Nos Wener
Adloniant Byw
Nos Sadwrn
Canu Cymraeg efo'r Organ

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

RAYMOND A'R STAFF

SWYDDFA'R POST

LLANBERIS
Ffôn: 870 201

Cardiau Nadolig a Phenblwydd
Teganau
Gwasanaeth Ffotogopio

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa



SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

TU ALLAN
STRYD FAWR
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN
oddi wrth bawb yn Siop Tu Allan
Llogi bwyeill rhew
crampons a sgis XC

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth
H.E. HUGHES
a'r MEIBION
870 902
ac 872200
870 444
MASNACHWYR GLO
1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Peter ac Irene Hagerty
TOUCHWOOD
Y Glyn,
Llanberis
Ffôn 871224
ANRHEGION NADOLIG ANGHYFFREDIN, DIDDOROL, DELFRYDOL!
Galwch yn ein siop i weld drosoch eich hun.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop
HAIRLINES
STRYD FAWR
LLANBERIS
870328
CYNLLUNWYR GWALLT
YN ARBENIGO MEWN TORRI
Beth am ddechrau'r flwyddyn newydd gyda perm yn ein SÊL IONAWR

Am anrhegion y Nadolig dowch i
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd
FORMAG
Stryd Fawr
Llanberis 870501
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth
Ifor a Margaret
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

I fyny'r bo'r nod ....
YR UCHELDERAU
(The Heights) Llanberis. ☎871179
Ar gyfer partïon swyddfa, cinio Nadolig a dathliadau o bob math
CYRSIAU - Barcuta, Dringo, Ceiac, Hwylfyrddio, Hwylio, Cerdded, Merlota.
CYFLEUSTERAU - Bar BMC, stafell ddisgo, fideo fawr, bar dringwyr, wal ddringo, ty bwyta. Ar agor ar gyfer brecwast, prydau bar, prydau nos, partion, priodasau, cinio clybiau.
LLETY - Stafelloedd en suite a stafelloedd Alpaidd moethus
Dychymyg yn unig sy'n ymestyn ffiniau realaeth.
NADOLIG LLAWEN I BAWB

Padarn Lake Hotel
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHI OLL ODDI WRTH **TERRY, VAL A'R STAFF**
LLANBERIS Ffôn 870 260
Prydau arbennig ar gyfer y Nadolig

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Garvin, Wil a Jim
W.G. ALLSUP
Storfa Gig Glan Padarn
LLANBERIS 870319

Y LLE DELFRYDOL
I BRYNU ANRHEG
NADOLIG I'CH
ANIFEILIAID ANWES

PET TRADE & INDUSTRY ASSOCIATION PTIA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Kerry a Jill Stott

GARTH MAELOG
PET CENTRE
& GROOMING SALON

51 STRYD FAWR
LLANBERIS 870840

CYFARCHION Y TYMOR

i bawb
yn yr ardal
oddi wrth

TRÊN BACH LLYN LLANBERIS

Y Bistro
43-45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn 871278

Discownt o 10% i bartion ym mis Ionawr.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Danny** a **Nerys Roberts** a'r staff

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Ken, Meril a Staff
STORFA PADARN
SPAR

LLANBERIS
FFôn: 871050
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd dda
i bawb oddi wrth
Colin a Kathy Fowler

CANOLFAN BEICIO
MYNYDD LLANBERIS
Ffôn: 870052

CELF Y COPÄON
MOUNTAIN ART
Stryd Fawr
LLANBERIS 870925

Am luniau mynyddoedd
*Peintiadau *Printiadau
*Posteri *Ffotograffau

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb

Dymuna pawb yn siop
VALERIE J. JONES
FFRWYTHA
A LLYSIAU
GLAN Y DON
STRYD FAWR
LLANBERIS 870301

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



Gwesty Erw Fair
LLANBERIS
Ffôn 872400

- ★ Dyddiau'n dal ar gael ar gyfer partïon Nadolig, yn cynnwys Dydd Nadolig
- ★ Partïon mawr a phartïon bach
- ★ Discownt o 10% i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa
- ★ Lle addas ar gyfer pob achlysur
- ★ Dewch i fwynhau ein bwyd blasus mewn awyrgylch braf

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Bob ac Annie Kane

ROBERT GARTSIDE B.Sc.,M.P.S.

FFERYLLYDD
COMPTON HOUSE
LLANBERIS
Ffôn: 870264
AM EICH ANRHEG NADOLIG!

Persawriau hyfryd o Ffrainc
Ffilmiau a Chamerau KODAK a FUJI
Gwasanaeth datblygu a phrintio ffotograffau am brisiau cystadleuol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

BRYSIWCH I GAEL EICH
TEGANAU, SIOCLED, CARDIAU NADOLIG AC ANRHEGION CAIN
YN SIOP
GWYNETH AC EIFION
ROBERTS
CACENNAU NADOLIG A BARA BRITH TRADDODIADOL

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

ODDI WRTH
BECWS ERYRI
STRYD FAWR
LLANBERIS 870491
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll
oddi wrth y

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870253

Diolch am eich cefnogaeth
drwy'r flwyddyn.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

cefnogaeth ac yn enwedig i Mr a Mrs Aneuryn Jones, Gwesty Dolbadarn.

Dathlu a Diolch: Dymuna Mrs Nellie Williams, Baladeulyn, Stryd Newton, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu anrhegion, cardiau a blodau a dderbyniodd ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr.

Clwb Eryri: Cyfarfu'r Clwb fel arfer yng Ngwesty Gwynedd ar ddechrau Tachwedd pryd y cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar y testun 'Mangl Nain' gan Mr Brython Jones, Caernarfon. Mr Cledwyn Williams, Llanrug, oedd llywydd y noson. Atgoffir yr aelodau y cynhelir y cyfarfod nesaf nos **IAU, 5 Rhagfyr**, pryd y disgwylir Mr Cledwyn P. Jones i annerch o dan lywyddiaeth Mr Eirwyn Jones.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyr Clwb y Ffrindiau 1/11/91 yw — £35: Mrs Eirian Owen, 7 Bedd Gwenan, Llandwrog (134); £25: Mrs Gwerfyl Jones, 9 Maes Padarn, Llanberis (176); £15: Mrs Elizabeth Roberts, Bryn-y-Coed, Fron Goch, Llanberis (137); £10: Mrs Valerie Jones, Glan-y-Don, Stryd Fawr, Llanberis (085); £5: Miss Marion Davies, 5 Rhes Efrog, Llanberis (004).

Apêl Ysbyty Alder Hey, Lerpwl: Cynhaliwyd noson Caws a Gwin yng Ngwesty Dolbadarn, nos Iau, Tachwedd 14, tuag at apêl yr ysbyty sydd yn dathlu ei benblwydd yn 75 oed. Trefnwyd y noson gan aelodau o eglwysi St Peris a St Padarn ac agorwyd y noson gan y Rheithor y Parch Peter Pritchard. Gwnaed elw o £331. Diolch i bawb am bob

Yn dilyn llwyddiant Clwb Karate Llanrug, penderfynwyd sefydlu clwb yn Llanberis. Yr hyfforddwr yw Kevin Siddall, a bydd yn cyfarfod ar fore Sadwrn yn Y Ganolfan. Bydd plant yn cyfarfod rhwng 10 ac 11 o'r gloch y bore, gyda'r oedolion yn dilyn hyd hanner dydd. Croeso i bawb sydd â diddordeb.

NANT PERIS

Ann Pleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon. Ffôn: 871457

Diolch: Dymuna Margaret a Tony ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Arian ar Hydref 15. Diolch hefyd i deulu Tros y Waun am wneud y noson yn un fythgofiadwy.

Dymuna Sandra Lynne Plemming ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phenblwydd yn 21ain oed.

Adref o'r Ysbyty: Da yw deall fod Alan Pritchard wedi dod adref o'r ysbyty. Brysia fendio Alan.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS A LLEISIAU LLIWEDD MEWN CYNGERDD
Yng Nghapel Coch
Llanberis
Nos Wener, Rhagfyr
6ed am 7.00 o'r gloch
Pris Tocyn £1
ELW AT HOSPIS
YN Y CARTREF

Hoffech chi wireddu breuddwyd
DYMA EICH CYFLE
Bydd Mici Plwm yn ôl yn fuan ar S4C efo cyfres newydd o
FE HOFFWN I
Afonwch ato'n awr os am wireddu eich breuddwyd arbennig
Mici Plwm
Fe Hoffwn i,
Cwmni'r Castell Cyf.,
12 Ffordd Carlton, Bae Colwyn, Clwyd LL29 8RS

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Ymddeoliad: Nos Wener, Tachwedd 1, bu Cyfarfod Ymddeoliad y Parchedig Huw Gwynfa Roberts, mab Mrs Roberts a'r diweddar G. H. Roberts, Hedsor Villa. Cychwynodd Mr Roberts ei yrfa i'r Weinidogaeth o Eglwys Pontrhythallt, ac yn ystod cyfnod ei yrfa bu yn gofalu am eglwysi yn y De, cyn symud i fugeilio Capel Cymraeg Manceinion. Yna, naw mlynedd yn ôl, fe'i galwyd i ofalu am eglwysi Brynrhos, Bwlan, Rhostryfan, Glanrhyd a Brynrodyn lle y cynhaliwyd y cyfarfod gollwng.

Cyflwynwyd tysteb ar ran aelodau eglwysi'r ofalaeth a chyfeillion i Mr Roberts fel arwydd o werthfawrogiad o'i wasanaeth, ynghyd â thusw o flodau i'w briod, Mair, un o ferched Llanberis. Dymunir pob hapusrwydd ac iechyd iddynt ar eu hymddeoliad.

Merched y Wawr: Yn y cyfarfod diwethaf, o dan lywyddiaeth Miss Phyllis Ellis, cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Antoinette Hughes, o Goleg Glynllifon. Darparodd amrywiaeth o fwydydd sawrus a melys at y Nadolig ac ar ddiwedd y noson bu amryw o'r aelodau yn lwcus yn ennill un o'r bwydydd a'r raffl. Diolchwyd i Mrs Hughes gan Menna Williams. Bu amryw o'r aelodau yn gweld y ddrama 'Dim Ond Heno' yn Theatr Gwynedd ar 29 Hydref. Canu Carolau, paned a mins peis a gwrando ar 'glychau dwylo', yng nghwmni Merched y Wawr y Waunfawr fyddwn ni yn y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Ragfyr.

Cydymdeimlad: Tachwedd 7, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr O. Llew Griffith, 6 Bro Rhyddallt. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Naomi, ei ferch Pauline, a'r teulu oll yn eu profedigeth. Bu'r angladd ddydd Mawrth y 12fed, gyda gwasanaeth yn Eglwys y Plwyf, ac yn dilyn ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan Canon Arridge a thalwyd teyrnged gan y Parch. John Morris.

Y Gymdeithas Undebol: Nos Fawrth, 29 Hydref, gyda'r Parch. John Morris yn llywyddu, cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mrs Nansi Lovatt yn olrhain hanes ei phlentyndod yn yr ardal lle'i magwyd. Talwyd diolch iddi gan Mrs E. W. Thomas. Ar Tachwedd 19 Mr John Grisdale, Prifathro Ysgol Brynrefail, oedd y siaradwr. Ei bwnc oedd 'Mynydda'. Dangosodd luniau gwych o Eryri, yn arbennig felly yn ystod y gaeaf pan dan drwch o eira, gan bwyntio allan y peryglon i'r cerddwyr a'r dringwyr sydd yn mentro cymaint. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Emrys Owen, a thalwyd y diolchiadau gan Mr Myrfyn Jones.

Plaid Cymru: Mewn cyfarfod o bwyllgor y gangen cwblhawyd y trefniadau at y Ffair Nadolig sydd i'w chynnal ar nos Fercher, Rhagfyr 4, am 6.30 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd. Fe ddaw Siôn Corn yno i weld y plantos. Edrychwn ymlaen at eich gweld i gyd yno.

Enillwyr diweddaraf y Clwb Cant yw — Hydref: 1, Megan Williams, 5 Cwrt Menai, Y Felinheli; 2, Frank Green, Annedd Wen, Pontrug. Tachwedd: 1, Gomer Roberts, Penisarwaun; 2, Dafydd Arfon Jones, 3 Minffordd.

Llongyfarchiadau i Dafydd Williams, Y Berllan, Carolyn a Dylan, ar ennill ohonynt amryw o wobrau yn Sioe Flodau Mihangel (Chrysanthemums) ym Mhen-y-groes.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs J. C. Williams, Bod Fair, ddiolch o galon i'w ffrindiau a'i chymdogion a anfonodd gardiau a llythyrau ati tra'r oedd yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. Y mae bellach yng nghartref y ferch yn Wrecsam ac yn gwella yn raddol. Brysied adref y mae lle gwag hebddi yn yr ardal — Capel Pontrhythallt a Merched y Wawr.

Dymuna Megan H. Jones, Wern, Ffordd yr Orsaf, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am yr holl ymweliadau, blodau, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty, ac ar ôl dod gartref.

Dymuna Mrs S. Olwen Edwards a theulu y ddiweddar Elsie Thomas, Bron y Graig, 8 Ffordd Glanffynnon, ddiolch yn ddiffuant i'r cymdogion a chyfeillion pell ac agos am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad, pob cymwynas a dderbyniwyd yn ei phrofedigaeth o golli ei hannwyl chwaer. Diolch yn arbennig i Mrs Eirwen Williams a Mr J. T. Morris, cymdogion; Meddygon teulu — Meddygfa Waunfawr a Llanrug; Nurse Iona, Nurse Myra a Nurse Beth am eu gofal tyner. I'r offeiriaid a gymerodd ran yn yr angladd, sef y Parchedigion Peter Pritchard, Canon Glyndwr Williams, E. Trefor Jones (perthynas) a G. Berw Hughes. Cyfeillion Eglwys St. Cross a Llanllechid; Mr G. Parry, organydd. I Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau. Diolch hefyd am y llu cardiau a'r llythyrau sydd rhy niferus i'w hateb, galwadau ffôn, rhoddion o flodau a'r rhoddion a dderbyniwyd at Feddygfa Waunfawr a Llanrug. I hen gyfeillion o'r Fachwen a Dinorwig. Diolch calon.

NEWYDDION O'R YSGOL

Cymdeithas Barnado: Yn sgîl ymweliad Miss Nia Jones, ar ran Cymdeithas Barnado, a'i sgwrs i'r plant am waith ac angen y gymdithas hon, trefnwyd casgliad drwy'r plant. Derbyniwyd y cyfanswm o £262.16 a diolchir i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos.

Chwaraeon: Cafwyd gornestau pêl-rwyd a phêl-droed yn erbyn timau Ysgol Bethel, ac er gwaetha'r tywydd garw, cafwyd gemau cyffrous. Colli 2-1 mewn gêm galed fu hanes y bechgyn, gyda'r genethod yn llwyddiannus o 6 phwynt i 1.

Cymdeithas y Deillion: Croesawyd Miss Oen o Gymdeithas y Deillion at blant y Dosbarth Derbyn.

Ymweliad: Fel rhan o'r gwaith thema ar 'Y Chwarel' bu plant Blwyddyn 6 a'u hathrawes, Mrs Mair Hughes, yng Ngwaith Coffaol Llanrug. Cawsant gyfle i weld y grefft o lythrennu ar lechfaen yng nghwmni Siôn a Gwyn Jones.

Absenoldeb: Dymunir adferiad buan i Mrs Mai Davies sydd wedi cael anaf i'w choes. Mae Mrs Ceri Salisbury yn gwasanaethu yn ei habsenoldeb.

Dathlu: Llongyfarchwn ein gofalwraig, Mrs Helen Lewis, a'i phriod Bryn, ar achlysur dathlu eu Priodas Arian.

Myfyrwyr o'r Coleg: Mae Mr Dylan Williams ac Ann Hughes, y ddau o'r Coleg Normal, Bangor, yn derbyn ymarfer dysgu gyda ni am ran o'r tymor hwn. Mae Miss Hughes gyda phlant Bl. 1 a Mr Williams â phlant Bl. 4. Dymunwn yn dda iddynt.

Plant Mewn Angen: Dan arweiniad Bl. 6 gwnaed ymdrech arbennig i godi arian i gronfa Plant Mewn Angen. Llwyddwyd i orchuddio llinellau marcio'r cwrt pêl-rwyd gyda dwy-geiniogau, a throsglwyddwyd y swm o £149.82 tuag at yr apêl.

Nofio: Llongyfarchwn y plant a fu'n cystadlu yng Nghala Nofio Sirol yr Urdd. Cafwyd llwyddiannau nodedig a bydd y buddugwyr yn cymryd rhan yn yr ornest genedlaethol a gynhelir ym Mangor ar Ragfyr 7fed.

Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr: Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor ar nos Fercher, Tachwedd 6, dan lywyddiaeth Mr J. W. Owen. Mwynhaodd yr aelodau y Noson Lawen a gyflwynwyd iddynt gan Gwmni Drama Llanberis. Dr Gwyn Williams oedd arweinydd y gweithgareddau. Diolchwyd i'r cwmni gan Mrs N. Lovatt a darparwyd lluniaeth gan ferched y Gymdeithas. Mr Bert Parry a ddiolchodd ar ran y Cwmni.

Nos Fercher, Tachwedd 13, gyda Mrs Meirwen G. Roberts yn llywyddu, cafwyd cwmni y Dr a Mrs Gwyn Parry, Pen-y-groes. Trwy gyfrwng sleidiau, tywyswyd yr aelodau ar daith i Rwmania. Cynigiwyd y diolchiadau gan Mrs Myfi Roberts.

DIOLCH

Dymuna plant Adran Addysg Arbennig Ysgol Syr Hugh Owen ddiolch i Iona, Elin, Siân, Elen, Alan, Iolo Glyn a Guto Siôn am y rhodd o £6.50, sef arian a gasglwyd ganddynt o amgylch ardal Brynmoelyn, Llanrug, ar Noson Calan Gaeaf.

BRYSIWCH!

Archebwch eich TWRCI NADOLIG a'ch CYW IÂR a CHIGOEDD ERAILL RŴAN

oddi wrth

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...

BYSIAU ARFON

LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Ysgol Tan y Coed: Ar ddiwrnod olaf cyn cau am wyliau hanner tymor y diolchgarwch, cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yng nghwmni plant ac athrawon yr Ysgol Feithrin. Yn ystod y gwasanaeth cafodd pob disgybl gyfle i gymryd rhan naill ai yn unigol neu mewn grŵp.

Wedi dychwelyd o'r gwyliau hanner tymor cynhaliwyd Ffair Lyfrau yn yr ysgol. Unwaith eto roedd cefnogaeth y rhieni yn ardderchog ac fe werthwyr cyfanswm o dros £440 o lyfrau. Braf yw cyhoeddi fod mwy o lyfrau Cymraeg wedi eu gwerthu na llyfrau Saesneg, ac yn ôl Siop y Pentan, Ysgol Tan y Coed sydd hyd yma wedi gwerthu'r cyfanswm mwyaf o lyfrau Cymraeg. Dyma dystiolaeth, os oes angen tystiolaeth, o gefnogaeth y rhieni i'r ysgol.

Yr un wythnos â'r Ffair Lyfrau trefnodd y Cyfeillion i Mr John Huw Davies, Uwch Drefnydd Cerdd y Sir, i ddod i'r ysgol i egluro polisi cerdd yr Awdurdod. Cafodd y rhieni gyfle i wrando ar sgwrs Mr Davies ac yna i godi a dilyn rhai pwyntiau ymhellach. I gloi'r noson cafwyd paned a bisgedi.

Ar hyn o bryd mae dwy fyfyrwraig o'r Coleg Normal yn treulio cyfnod o ymarfer dysgu yn yr ysgol. Mae Miss Alison Edwards gyda dosbarth y Babanod, a Miss Christine Jones gyda Safon 3 a 4. Mae'r ddwy yn cael hwyl dda iawn arni, a gobeithio y byddant yn mwynhau y gweddill o'u hymarfer dysgu. Manteisiwn ar y cyfle hefyd i ddymuno pob llwyddiant iddynt yn eu gyrfa fel athrawon.

Cynhelir Ffair Nadolig yn yr Ysgol am 6.30 p.m. **Nos Wener, Tachwedd 29.** Os oes gennych unrhyw roddion i'r Tombola, a.y.b., fe fyddwn yn falch iawn ohonynt. Mae nifer o bethau eisoes wedi cyrraedd ac fe fydd ocsiwn ddiddorol iawn yn cael ei chynnal yn ystod y Ffair. Dowch yn llu i'n cefnogi. Elw'r noson i gronfa'r Ysgol.

Cynhelir ein Gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Santes Helen, **ddydd lau, Rhagfyr 12,** gyda'r casgliad tuag at War y Plant, Ysbyty Gwynedd. Eleni cynhelir dau wasanaeth, un am **1.30 p.m. i rieni a phlant bach,** a'r ail un am **6.00 p.m. i oedolion.** Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

Urdd Adran Bentref: Nos Fawrth, Hydref 29, daeth nifer o blant ynghyd i ymaelodi ar ddechrau tymor arall. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn gwylio fideo o'r rhaglen Sblat — stori Nant Gwrtheyrn a Mari Jones. Nos Fercher, Tachwedd 6, y Prifathro, Mr Robert Humphreys, ddaeth atom i ddweud hanes y 'Titanic', gyda rhywfaint o luniau ohoni i'w gweld ar fideo. Diolchodd Aled i Mr Humphreys am sgwrs ddiddorol. Nos Fawrth, Tachwedd 12, noson ddiddorl yng nghwmni Mr Hefin Jones, Llanrug a fu'n nyrs yn yr Uned Ddamweiniau yn Ysbyty Gwynedd. Tracy a ddiolchodd i Mr Jones.

Mae croeso i unrhyw un ymaelodi am £2.20 am y flwyddyn. Mae oren a chreision ar werth ymhob cyfarfod am 25c.

Ysgol Sul Bosra: Y mae'r plant eisoes wedi cychwyn ar eu gweithgareddau Nadolig a gobeithir cynnal gwasanaeth y Sul cyn y Nadolig. Y mae Siôn Corn wedi rhoi ei air y bydd yn ymweld â hwy, ynghyd ag aelodau Ysgol Sul Santes Helen, yn Neuadd yr Eglwys, ddydd Llun, Rhagfyr 23. Byddwn yn falch iawn o unrhyw gyfraniadau at y Parti Nadolig. Anfonwn ein cofion annwylaf at Mrs Bronwen Jones, gan obeithio ei bod yn gwella.

18 oed: Ar Tachwedd 3 dathlodd Jonathan Richardson ei benblwydd yn 18 oed. Pob bendith i ti a phob llwyddiant i'r dyfodol.

Diolchiadau: Dymuna Mrs Percy Williams, 3 Llys y Gwynt, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y llu cardiau, ymweliadau a galwadau ffôn yn ystod ei gwaeledd. Diolchir hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd ati yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Dymuna Jonathan Vincent Richardson, Llys Meddyg, ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd, dymuniadau da ac am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 18 oed.

Pob dymuniad da i Ceirion Williams, Careb, Bryn Eglwys, sydd newydd ymuno â'r fyddin.

Profedigaeth: Daeth profedigaeth unwaith yn rhagor i Mrs Mary Davies. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â hi wedi marwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith, Mr Elfed Davies o Glynnog.

Cofion: Anfonwn ein cofion annwylaf at Mr Hugh Williams sydd yng ngofal annwyl Mrs Eluned Porter a'r teulu. Yr un modd anfonwn ein cofion at Mrs Eileen Thomas sy'n dal i dderbyn triniaeth yn Ysbyty Lerpwl.

Pwyllgor Neuadd: Mae'n siŵr fod nifer ohonoch yn edmygu'r Ysgol Gymunedol newydd — y mae yn hardd dros ben ac yn un i ymhyfrydu ynddi. Ar y cyflymder yma buan iawn y bydd y plant yn rhodio i'w chynteddau. Yr un mor brysur y mae aelodau'r pwyllgor yn codi arian at Gronfa'r Neuadd Gymunedol. Nos lau, Hydref 31, cynhaliwyd Noson Calangaeaf yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 p.m. Profodd y gweithgaredd yma yn un llwyddiannus iawn eto eleni gyda Mrs Alma Jones, Waunfawr, yn feirniad. Diolchir iddi am roi gair annwyl i bob cystadleuydd ac am ei rhodd haelionus. Tynnwyd Clwb Cant Hydref — 1, Manon Glyn, Bryn Eglwys; 2, Mrs Beti Pritchard, Caernarfon; 3, Dafydd Ifans, Sycharth. Enillwyd y raffl gan Wendy Phillips. Diolch i bawb a gefnogodd y noson. Tynnir Clwb Cant mis Tachwedd yn Sycharth a gobeithir tynnu Clwb Cant mis Rhagfyr yn Sycharth cyn cychwyn o gwmpas y pentref i ganu carolau.

Eglwys Santes Helen: Am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Tachwedd 19, canwyd clychau eglwysi trwy'r wlad i ddathlu fod y gwystl Terry Waite wedi cael ei ryddhau o fod yn gaeth am bron i bum mlynedd yng ngwlad Libanus. Ar fyr rybudd daeth cynulliad bach i Eglwys Santes Helen. Canwyd y gloch ac hefyd darllenwyd gweddi gan Andrea Paterson.

Llongyfarchiadau i Mrs Lizzie Jones, 3 Mason St., Hirael, Bangor (Tai Arthur, Waun, gynt — mam Thelma a Morwenna) a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 100 oed ar Ragfyr 12. Cofion gorau atoch.

Draenog yn Ymddiheuro! Sgŵp y Flwyddyn

Am y tro cyntaf erioed yn hanes yr *Eco*, bu'n rhaid i Draenog ymddiheuro i'r darllenwyr — nid ymddiheuro am ei sylwadau sylwch, ond ymddiheuro i bob un o'r darllenwyr a fethodd wneud na phen na chynffon o'i sylwadau y mis diwethaf ynglŷn â chyhoeddiad Awdurdod Datblygu Cymru. Felly, dyma unioni'r cam, a chynnwys y map o ardaloedd datblygu Cefn Gwlad.

Sylwch fod bro'r *Eco* (17) wedi symud i gyffiniau Beddgelert, a Bethesda (2) yn ymestyn i Fethel a'r Felinheli. Fe fyddai'n haws cydweithio â chymunedau pe bai'r A.D.C. yn gwybod ble mae nhw. Ond ar y llaw arall, efallai mai eu syniad nhw o oresgyn problemau cefn gwlad Cymru yw ei symud i rywle arall. Tahiti efallai — o wylio rhaglen 'Wales this Week' yn ystod yr wythnos ddiwethaf hon!



CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
★Gwres canolog llawn
★Sustem ddiogelu rhag tân
★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
★Sustem alw nyrs
★Yn Cwrdd â phob angen personol
★Lle bwyta mawr
★Aros cyfnod hir/byr
★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
★Coginio cartefol
★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON NEU EI OSOD.
cysylltwch â
Barrys GLASS
Camelot, PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

Aled Jones
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio
4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

ECO'R IFANC

Lliwiwch y lluniau yma yn ofalus. Defnyddiwch wahanol raddfeydd o goch, gals a phorffor i'r doethion a brawn, melyn ac oren i'r bugeiliaid.

DOETHION A DDAETHANT O'R DWYRAIN. OFFRYMASANT IDDO ANRHEGION; AUR THUS A MYRR.

YR OEDD BUGEILIAID ALLAN YN Y WLAD YN GWARCHOD EU PRAIDD LIW NOS.

TŶ DA

wedi ei foderneiddio yn ardal yr Eco. Ar werth am bris rhesymol iawn i brynwyr addas Cysyllter â **028 685 558**

GERDDI GLASCOED
(Ger Capel Glascoed
PENISARWAUN
Rwan yw'r amser i blannu coed, bylbiau a llwyni
Galwch heibio neu ffoniwch
870453

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau ac ati mewn stoc

Geni ♥ Bedyddio ♥ Iâoed ♥ Priodas ♥
Achlysur arbennig?
Anrheg unigryw?
Beth am un o sampleri
PWYTHAU CAIN
Cynllunir pob sampler yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.
Hefyd gwniadwaith o bob math gwneud dillad, newidiadau, llenni, a.y.y.b.
Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438
Dyweddio ♥ Adnoddau ♥ Llwyddiant ♥ Ymddeoliad
Diarfeiau ♥ Graddio ♥ Anrhydedd ♥ Dyrchafiad
Cartref Newydd ♥ Darnau o Farddoniaeth

Cystadleuaeth Mis Rhagfyr

Dyma nhw enillwyr mis Tachwedd:
LOIS WYN HUGHES, Erddig, 8 Rhos Lan, Bethel (5 oed).
PAUL HYWEL HUGHES, 5 Bro Eglwys, Bethel (6 oed).
KEITH WILLIAMS, Bryn, Cwm y Glo (7 oed).
STEPHEN OWEN JONES, 21 Bryntirion, Penisarwaun (8 oed).
ANNA MARIE KIELY, 6 Trem Elidir, Maestryfan, Bangor (10 oed).

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

.....

..... **Oed** .....



1 = DU. 2 = OREN. 3 = PINC. 4 = BROWN. 5 = GLAS. 6 = MELYN. 7 = GWYRDD. 8 = COCH.

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Rhaid sylweddoli bellach ein bod yn brysur agosau at y Nadolig, ac erbyn y bydd y nodiadau hyn yn cael eu darllen fe fyddwn ynghanol yr Adfent. Mae fy nyddiadur dyddiol yn nodi mai'r Sul y 1af o Ragfyr eleni yw'r Sul cyntaf yn Adfent. Yn anffodus nid oedd y wybodaeth hon yn nyddiadur fy enwad. Ambell dro mae'r dyddiaduron seciwlar yn rhagori ar ddyddiadur yr enwad hyd yn oed!

Priodas: Nid dyma'r tro cyntaf i ni ddechrau ein newyddion gyda chyfeiriad at briodas. Yng Nghapel Dinorwig (M.C.) y gweinyddwyd y briodas hon pan unwyd mewn glân briodas Gwyneth Elizabeth Davies, merch ieuengaf Mr a Mrs Gwilym Davies, 10 Bro Elidir â Mr Emrys Wyn Owen, mab Mrs Ruth P. Owen a'r diweddar Mr J. R. Owen, 78 Pensyflog, Porthmadog. Bydd y cwpl ieuainc yn gwneud eu cartref yn Bron Myfyr, Dinorwig. Fe ddymuna eu cyfeillion oll briodas hapus i'r pâr ifanc, ac mae aelodau Capel Dinorwig yn edrych ymlaen at gael eu cwmni yng nghynulleidfa'r capel, a hynny pan mae cynifer o bobl ifanc yn gorfod symud i fyw i ardaloedd eraill, ac wrth gwrs mae'r ardaloedd eraill ar eu hennill o'u presenoldeb.

Marwolaeth: Wedi sôn am achlysur hapus, rhaid newyd y cyweirnod a chofnodi marwolaeth Elizabeth Ellen Thomas, chwaer Sarah Olwen, a merch y diweddar Griffith Thomas ac S. J. Thomas, Fachwen.

Fe gofir am gyfraniad gwerthfawr Mr Griffith Thomas mewn cyngherddau elusenol yn yr ardaloedd hyn. Fel eraill a wasanaethai mewn adloniant cartrefol mewn adrodd a chanu, ni hawlient unrhyw dâl ariannol. Fe ddaeth eraill ar eu hôl a derbyn tâl sylweddol am wasanaeth o'r natur yma. Onid ydyw pethau wedi newid? Fe aberthent hwy eu hamser gan baratoi'n drylwyr a dirwgnach, gan gynorthwyo nifer o deuluoedd wedi eu taflu i ganol helyntion bywyd, a fawr o arian wrth gefn yn aml i wynebu'r costau.

Cynullydd y partïon hyn oedd fy ewythr, Mr Robert Lloyd Roberts (Ffrwd Alaw), Bryn'refail, ef yn gyfeilydd i'r parti, ac yn teithio i'r cyngherddau ar ôl diwrnod caled o waith yn Chwarel Dinorwig. Cynhyrchu elwr i'r meistr tir yr oeddynt a'r cyflog am weithio yn y chwarel yn aml yn ddigon bychan gan bod tywydd yn eu herbyn yn aml. Fe wnaeth y gwron W. J. Griffith gyfeiriad at hyn yn ei gynnyrch llenyddol ar sail ei adnabyddiaeth o'r bobl oedd yn gweithio yn y chwarel tra 'roedd yr perchenogion uwch ben eu digon. Ni raid ond sôn am 'Ywen Llanddeiniolen' lle ceir llinellau o farddoniaeth tarawiadol. Fe fu'r aberth o du y gweithiwr yn fwr mewn bywydau a cholli iechyd a'r ardal yn bur aml yn cael ei hysgwyd i'w seiliau pan geid damweiniau angeuol yn y chwarel. Fe ddaeth y ddamwain pan aeth trên i wrthdrawiad â lori ym Minffordd yn ddiweddar a damwain arall i'r cof — nepell o Fethel, eto rhwng trên chwarel a lori.

Yr un yw'r hanes o Ddyffryn Ogwen a theuluoedd yn cael eu sigo oherwydd y damweiniau echrydus a ddeuai i'w rhan — gwragedd yn colli eu gwŷr, ac yn aml iawn eu bechgyn a fagwyd gyda phob gofal. Ni ddylid anwybyddu'r ffaith bod cynnifer yn awyddus i yrru eu plant i gael manteision addysg yr ysgolion uwch a'r colegau er ceisio osgoi eu gyrru i'r chwareli gyda'u holl beryglon a'u creigiau tywyllodrus.

Cymanfa Ganu: Ar waethaf y tywydd anffafriol fe welwyd nifer ohonom yn myned i Gymanfa Ganu arall yng Nghapel Coch Llanberis. Cymanfa Ganu oedd hon wedi ei threfnu i geisio cynorthwyo Capel (M.C.) Rhiwlas i glirio eu cost atgyweirio. Roedd y daith o bosib yn faith ac anniben, ac er cyfarfod nifer o gyfeillion dieithr 'roedd hi'n bur hwyr ar rai ohonom yn cyrraedd adre' nôl.

Cyflwynwyd eitemau chwaethus gan Côr Meibion y Penryn, a nifer ohonom a fu'n perthyn i gorau meibion, rhyw dro neu'i gilydd, yn gwerthfawrogi'r darnau a glywid a'r pŵer oedd tu ôl i'r côr ond a reolid yn feistrolgar. Canlyniad ymarfer trwyadl oedd y cyfan, a'r cwbl yn rhoddi gwefr i ni oedd yn gwrando. Fe ddygai i ni atgof o hen Côr Meibion Chwarel Dinorwig. Mae Côr Meibion y Penrhyn yn un o gorau meibion amlycaf yng ngogledd Cymru y dyddiau hyn. Mr T. Gwynn Jones, Porthaethwy, oedd yn arwain y canu cynulleidfaol ac 'roedd yr oedfa yng ngofal y Parchg W. R. Williams, Y Felinheli.

Marwolaeth: Maddeued gohebydd Deiniolen i mi am gyfeirio yn gynnil at farwolaeth Mrs Grace Williams, Llysfryn, Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont. Fe fu'r ddiweddar chwaer yn dod yn gyson i gapel Sardis pan oedd yn byw yh Gorlan Wen, o dan Ffordd y Garret, a arweiniai i'r chwarel. Adwaenem ni hi fel Mrs Grace Parry, Gorlan Wen, ac fe symudodd o Ddinorwig ar ôl marwolaeth ei phriod, y diweddar Henry Parry. Chwith iawn yw colli'r rhai oeddem yn eu hadnabod yn bur dda.

Cofiwn ei eni Ef: Gyda'r Dwyrain Canol yn parhau i achosi pryderon i ni o hyd, rhaid i ni a'r Nadolig ar y trothwy gofio neges gysurlon Tywysog Tangnefedd, a chân yr angylion ar y Nadolig cyntaf ynghyd ag ymateb y bugeiliaid ar feysydd Bethlehem. Hyn sydd yn ein cynnal ymlaen i'r dyfodol a obeithiwn fydd yn llewyrchus.

Y Gymdeithas Lenyddol: A lliw y cenllysg a'r eira ar y mynyddoedd mae hi'n ddigon anodd i droi allan y nosweithiau hyn, ond ein dyletswydd oedd ceisio cynnal y Gymdeithas Lenyddol, ac fe fuom ddwy waith yn Eglwys St. Mair oherwydd atgyweirio'r Ganolfan arferol. Yr eildro y cyfaill Emyr Owen, Caernarfon, ond a'i wreiddiau yn y Waunfawr, oedd yn sôn am ddiwylliant a hiwmor chwarelwyr a phan ddiolchwyd iddo gan y llywydd, Mrs Megan Morris, cyfeiriodd hithau iddo ein atgoffa o ddigwyddiadau trwstan y gorffennol, ond rhai serch hynny oedd yn gwbl ddiwenwyn, a 'true to nature' chwedl Wil Bryan.

Diolch: Dymuna John a Betty Peris Roberts ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau oll, am y cardiau, rhoddion a glawadau ffôn tra yn Ysbyty Gwynedd. Llawer o ddiolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ward Ogwen a Ward Glyder am eu gofal caredig. Diolch yn fawr i bawb.

Eisteddfod Bentref: Ydy mae dyddiad yr eisteddfod yn nesau, sef **nos Fercher, Rhagfyr 4, am 6.30 o'r gloch yn y Ganolfan leol.** Fel arfer mae pawb yn edrych ymlaen eleni eto am noson o gystadlu brwd a llond trol o chwerthin iach. Gobeithio bod nifer ohonoch wedi bod yn ymarfer ychydig ar gyfer yr amrywiol gystadlaethau llwyfan. Ysgwn i faint fydd yn mentro ar y gystadleuaeth côr garglo a'r parti canu cân hefo crib a phapur. Mentrwch arni er mwyn ymuno yn yr hwyl. Y beirniaid eleni fydd — Llenyddiaeth: Eurig Wyn, Y Groeslon; Coginio: Gwyneth Owen, Dinorwig; Adran y Plant: Valmai Davies, Dinorwig; Cerdd: John Jones, Deiniolen; Adrodd: Meira Turner, Waunfawr.

Cofiwch bod angen i gynnyrch y gystadleuaeth coginio fod mewn llaw erbyn nos Fawrth, Rhagfyr 3. Hefyd yr un dyddiad cau sydd i'r cystadlaethau celf a chrefft. Bydd y Ganolfan ar agor i dderbyn eich cynigion rhwng 6.30 a 7.30 o'r gloch y noson honno. Felly, dewch yn llu i'r eisteddfod gan y bydd croeso cynnes yn eich aros.

Diolch: Dymuna pwyllgor yr eisteddfod ddiolch i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am eu cefnogaeth ariannol. 'Rydym yn ffodus o dderbyn cymorth o'r fath bob blwyddyn.

Eglwys St. Mair: A ninnau ar drothwy tymor yr Adfent edrych ymlaen fyddwn ni yn awr tuag at ddathlu Gŵyl y Geni. Ystyr yr Adfent yw bod gennym bedwar Sul i baratoi cyn y Nadolig a mawr hyderwn y bydd nifer ohonoch yn cydaddoli â ni yn ystod mis Rhagfyr. Yn ychwanegol i'r gwasanaethau Sul arferol fe gynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid ar fore dydd Nadolig am 10, ac fel arfer, bydd croeso i bawb o bob enwad ymuno â ni yn y gwasanaeth hwn.

Conffyrmasiwn: Mae'n dda gallu adrodd bod tri ymgeisydd o'r eglwys wedi dod ymlaen ar gyfer eu conffyrmio. Y tri yw Dafydd Wyn, Arwyn ac Iwan Jones. Yn ystod y tri mis nesaf byddant yn ymuno ag ymgeiswyr eraill o eglwysi cyfagos yn y gwaith o baratoi eu hunain. Mae'r trefniadau yng ngofal y Parchg Tegid Roberts.

Diwedd y flwyddyn: Atgoffir pawb o'r aelodau bod angen i'r cyfraniadau ariannol am eleni ddod i law erbyn dydd Sul olaf ym mis Rhagfyr. Hoffem ddiolch ymlaen llaw i bawb am eu cefnogaeth ariannol i'r eglwys.

EISTEDDFOD BENTREF DINORWIG

nos Fercher, Rhagfyr 4 o 6.30 o'r gloch ymlaen yn Y Ganolfan leol

DEWCH I YMUNO YN YR HWYL

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

DEWIS EANG O WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

Mae angen Cyfundrefnau a'u Sylfeini yn y gymuned a Hyfforddwyr unigol ar gyfer

WELCOME HOST CYNLLUN CROESO

Rhaglen hyfforddiant yw'r **Cynllun Croeso** a gynlluniwyd gan Fwrdd Croeso Cymru er mwyn sicrhau bod ymwelwyr yn cael gwasanaeth a chroeso o'r safon uchaf.

Er mwyn sicrhau llwyddiant bydd angen cyfundrefnau sydd â'u sylfeini yn y gymuned leol fel y Siambr Fasnach, Cymdeithasau Ymwelwyr ac ati i sefydlu a rhedeg rhaglen yn eu hardal.

Mae rhaid i ni hefyd recriwtio unigolion sydd â diddordeb mewn dod yn hyfforddwyr **Cynllun Croeso** profedig.

Dylai cyfundrefnau ac unigolion sydd â diddordeb ysgrifennu am fanylion pellach at:
Uned Cyswllt Hyfforddi, BWRDD CROESO CYMRU
Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd CF2 IUY

Cynllun Bwrdd Croeso Cymru mewn partneriaeth â Cynghorau Hyfforddi a Menter Cymru.

PLUO

Dechreuodd Meri sisial yn gynhyrfus dan ei gwynt pan welodd nad oedd Cythbert, gwrcath hynaf Hafod Mwynion, heb symud yr un blewyn oddi ar garreg drws y cwt tyrcwn.

'Damia chdi, Cythbert!' meddai Meri, gan ysgwyd ei barclod gorau. 'Dyma hi bron yn ddiwadd bora, a chditha yn fy rhwystro rhag g'neud fy ngwaith!'

Ond ni chymrodd Cythbert sylw ohoni.

'Sym! Sym, da chdi!'

Rhoddodd Meri un cam cawres dros gorff mawr, meddal y gath. Do, mi fedrodd gil-agor drws y cwt, a gallai weld cannoedd o lyg'id yn serennu arni. Gwnânt sŵn 'gobl-gobl'; gellid eu clywed yn siffrwd eu traed a'u plu. Gwyddent fod eu hawr wedi dod, a bod Meri Huws yno i roddi tro yn eu gyddfau main, a'u pluo fesun un ac un hyd nes eu bod yn un noethni hagr. Y cyfan a welai Meri oedd llond cwt o goeden arian; pob tyrci wedi troi'n bapurau degpunt. Dechreuodd rwbio ei bysedd.

Da y gwyddai Cythbert hyn i gyd. Dyna paham y gorweddai yn drwm-foliog ar stepan drws y cwt. 'Doedd Meri ddim yn deall; ni wyddai hi bod y titw gwrywaidd â'i bryd ar geisio'i rhwystro rhag llofruddio'r tyrcwn.

Ymhen pum niwrnod byddai'r Dolig wedi dod â mynd. Gwenodd Meri. Camodd yn ei hôl, a dyna pryd y cododd Cythbert.

'Cythbert!' gwaeddodd Meri wedi'i chynhyrfu yn lân. Hen ferch oedd hi ac oed yr addewid wedi hen fynd heibio iddi.

'Cythbert!'

Deugain mlynedd a mwy o fyw yn Hafod Mwynion — hi ac William ei brawd — a dyma'r tro cyntaf iddi hi gael y profiad arswydus o anhyfryd o gael cath yn ymgripian i fyny'i sgert. Camodd ymlaen, â'i llyg'id yn llawn braw. Ail-hawliodd Cythbert ei hen safle ar y garreg.

'Be' haru ti'r cnaf? Symud y diawl penstiff!'

Ond ni ddangosodd Cythbert ei fod wedi'i frifo gan eiriau gwyllt ei feistres ac roedd ei lyg'id fel soseri yn ei ben, a'i wisgars mor llonydd â'r lôn trwy dref Conwy wedi agor y Twnel Newydd. Pa hawl oedd gan ei styllen o feistres i fygwth?

'Cythbert!' Dyma Meri'n gwyro tuag ato, a dyna pryd y chwythodd i'w hwyneb nes camu tamaid o'i thrwyn.

'Rhad y bendith, giath, gwna le i'th well!'

Ond doedd y gath heb fod am symud yr un gronyn. Cyrchodd Meri frws brâs o'r beudy. Doedd dim gwahaniaeth fod baw gwartheg yn dal i sgleinio ar ei ddannedd.

'Damia chdi, Cythbert!' a dyma Meri â phwniad a hanner

i'r gwrcath yn ei asennau â'r brws bras.

Ond ni syflodd.

Dyma hi wedyn â phwniad iddo dan ei gynffon. Hi oedd piau'r drws wedyn. A dyna gael gafael yng ngwddf y tyrci agostaf at y drws, ond cyn iddi gael rhoi tro ynddo, roedd Cythbert wedi llithro dan ei thraed, a hithau'n ista ar ei thin ynghanol y tyrcwn.

'Mi wysga' i drowsus 'fory,' meddai Meri'n gaclwm-wyllt, 'mae'r sgert 'ma yn rhy laes. Ac am chdi, mi gei di dy gau yn y cwt dan grisiau, mêt bach,' a hylldremiodd ar y gath a oedd yn gorwedd rhwng dau dyrci tew ar ganol y rêl yn y cwt dofednod.

Gohiriwyd y lladd a'r pluo. Bore trannoeth, bu Meri'n fwy gofalus, ond rhywfodd fe wyddai Cythbert sut i ddianc o'r twll dan grisiau. Cuddiodd dan y bwrdd yn y gegin, a dyna ble roedd Wil, brawd Meri, yn tynnu'i sgidia yn ôl a blaen ar hyd corff Cythbert gan feddwl mai mat oedd yno ond daeth galwad natur heibio i'r hen wrcath.

'Nefoedd!' bloeddiodd William, gan neidio i'w draed ac un hosan o'i eiddo yn wlyb-gynnes.

Yn y fargen o godi mor sydyn i'w draed holltiwyd ei fresus yn ddau ddarn, ac er mawr embaras i Meri, disgynnodd ei naw llathen o drowsus melfared fel clwtyn llac o gwmpas ei fferau. Ni fu lladd na phluo y dwthwn hwnnw. Bu'n rhaid i Meri fynd i'r dref. Un pâr o fresys oedd gan William ac ni wnâi cortyn bêls mo'r tro. Mae William bob amser mor bartic.

Drannoeth, llewygodd Cythbert ar y mat o flaen tanllwyth o dân. Meri a Wil wedyn yn mynd â fo at y milfeddyg, a dreifar malwen-mewn-col-tar ydy William, a Meri yn ei gyfarwyddo yr holl ffor' i'r dref.

'Tymor prysur wyddoch chi, Wilias,' ebe Meri wrth y milfeddyg.

'Wedi lladd y tyrcwn erbyn hyn, Meri Huws?'

'Naddo.'

'Naddo?'

'Naddo.'

'Ar ei hôl hi'n arw 'leni, Meri Huws. 'Does dim yd o'i le ar y gath — cyn iached â chneuen.'

'Cerwch o'na, Wilias.'

'Talu ddiwedd y flwyddyn arian-tyrcwn a wnewch chi eto 'leni mae'n debyg, Meri Huws?'

Ond mi 'roedd Meri wedi codi Cythbert gerfydd ei bedair coes ac wedi'i blannu dan ei chesail llydan. Brasgamodd am y drws. A dyna pryd y dihangodd Cythbert. A büwyd yn chwilio amdano hyd nes iddi ddechrau nosi, a Wil ar bigau drain ishio mynd adra i odro'r gwartheg a phopeth. Ni chafodd Cythbert gysgu'r noson honno rhwng William a Meri yn y gwely wenscot. Yn syth bin, ar ôl brecwast, anelodd y gath am y cwt tyrcwn, ond doedd yno ddim byd ond ambell bluen wen drist yr olwg wedi'i dal rhwng y distiau a phlastar y nenfwd. Lladdwyd. Pluwyd. Paciwyd dros gant o dyrcwn digon nobl. Y diwrnod cynt daeth Ifor cefnder Meri a William, a'i frawd Gwilym draw. Dim ond bore a phnawn y buont wrth y gwaith o ladd a phluo'r holl dyrcwn yn y cwt.

Diflannodd Cythbert wedi hynny.

'Wedi mynd i garu mae o,' cynigiodd William.

'Pwy? Cythbert? Mae o'n rhy hen a thrwm i hynny,' oedd unig sylw athrist Meri.

Diwedd yr wsnos, rhuthrodd William ar ei hyll i'r gegin at Meri.

'Meri! Meri!' llefodd, 'Cythbert!'

'Be' sy' Wiliam?'

'Tyrd, tyrd Meri, i ti gael gweld trosot dy hunan.'

Yn y domen sbwriel ymhen draw Cae Bach 'roedd Cythbert â'i ben yn sownd mewn hen dun paent gwag — un Dulux hefyd. Wedi mynd yno i fwrw ei gynddaredd ar lygoden lwyd 'roedd o.

'MAe o cyn stiffed â phrocar, Meri.'

'Go damia fo!'

'Paid â chrio, bendith y Tad i ti, Meri. Dda gen i weld merchad yn crio.'

Dan y goeden eirin yn y man tawelaf un yn y berllan y claddwyd Cythbert. A'r un wsnos gwelwyd hysbyseb yn *Eco'r Wyddfa:* **'Tyrcwn wedi'u pluo'n raenus o lân. Ffoniwch Hafod Mwynion'.** Ar yr un dudalen yn y golofn newyddion pentra bychan anhysbys yn Arfon, cafwyd nodyn twt o drist i'r perwyl hwn: *'Er cof tyner iawn am Cythbert — un o gathod dewraf a rodiodd daear plwy' Llanddeiniolen. Go damia fo!'*

'Does dim rhaid dweud pwy a'i hanfonodd yno.

DAFYDD GUTO

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248
Gosodwyr Nwy Cofrestedig Corgi
CORGI GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors
Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
YSGOL YRRU OFALUS
* Gwasanaeth 7 diwrnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol
D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

Y STORFA LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: Caernarfon 2790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon ordor i'ch cartref yn ardal Llanrug.

GERAINT OWEN
Gosodwr carpedi a phob math o loriau
Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 552

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Clwb 300: Dyma restr enillwyr y Clwb am fis Hydref — £40: R. Edwards, Melin y Wig; £25: W. M. Catt, Awel y Môr; £10: Haydn Jones, Rhandirmwyn.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cafwyd noson o fwynhad yng nghwmni parti Hogia'r Mynydd, o ardal Mynytho, yn y Ganolfan, nos Lun, Tachwedd 11, a chynulleidfa dda iawn. Yn dilyn y cyngerdd darparwyd lluniaeth i'r parti gan ferched y Gymdeithas a hwythau hefyd wedi gwneud eu gwaith yn ganmoladwy iawn. Talwyd y diolchiadau gan Ifor Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Rhagfyr 16, pan y ceir noson o ffilmiau a darluniau ar yr hen reilffordd o Gaernarfon i Afonwen gan Mr Ken Robinson, Penrhyndeudraeth. Yn sicr bydd ei sgwrs a'r lluniau yn dwyn atgofion melys i amryw a fu o dro i dro yn teithio ar y lein. Llywyddir y noson gan Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt.

Dymunidau da: Cymerodd y Parchg John Gillibrand ei wasanaeth olaf yn Eglwys Sant Ioan, ddydd Sul, 17 Tachwedd. Bydd yn gadael y plwyf ddechrau Rhagfyr i gymeryd dwy eglwys ym Mlaenau Ffestiniog. Dymunwn bob llwyddiant iddo a phob hapusrwydd yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau:

—i Ian Johnstone, Tŷ Gwyn, ar ei ddyweddiad â Samantha o Lanberis;

—Gwyn thomas, Treforfan, yn 21 oed. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch;

—Mrs Annie Williams (Gwynllys gynt) o Plas Maesincla, ar ddathlu ei phenblwydd yn 100 oed. Llongyfarchiadau mawr i chi ac anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Williams sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn yr un dymuniad da at Mrs M. A. Owen, Bod Arfon, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well yn fuan.

Cyfeillion Ysgol Waunfawr: 'Lle Bawa Blodwen'. 'Rydw i wedi clywed am bobl yn prynu tywarchen o dir cysegredig Anfield neu Old Trafford, ond chlywais i erioed fod cael yn ymyl Awel y Môr wedi ei anfarwoli gan neb! Yn ystod y mis diwethaf bu cyfeillion Ysgol Waunfawr yn brysur yn rhentu sgwariau o'r cae. Cae Steve a Carys Jones oedd o, a does dim byd yn arbennig yn y cae. Ond roedd un creadur yn cael ei ollwng i'r cae fore Sadwrn ddechrau Tachwedd. Bleddyn y bustach oedd hwnnw. Ia 'dwi'n gwybod mai Blodwen a fwriadwyd — ond fedra hi ddim cyrraedd y cae yn ddigon buan! Beth bynnag wrth ei bod hi'n fore oer gaeafol fu dim rhaid disgwyl yn hir i'r hen Fleddyn fendithio'r cae — falle iddo fo gael tair Shredded Wheat i frecwast gan Carys cyn cychwyn ar ei antur.

Fu Graeme fawr o dro yn mesur pwy oedd yn mynd i elwa o weithred y bustach. Sgwar Rhif 26 oedd o, a'r enillydd o £100 yw Mr Sanderson, Cae Gorlan, Waunfawr.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch o galon i Graeme Hughes am fesur a rhannu'r cae, ac i Steve a Carys Jones am fenthyg y cae a'r creadur ufudd. Hefyd i'r rhieni a ffrindiau am gefnogi drwy brynu tocynnau — a gwneud elow o £331 i gronfa'r Cyfeillion.

Yr Urdd: Daeth trigolion y pentref ynghyd ar gae'r Ganolfan, nos Fawrth, Tachwedd 5, i weld Guto Ffowc (ffrwyth llafur cyfarfod blaenorol yr Urdd) yn llosgi'n braf ar y goelcerth anferth. Mwynhaodd pawb y tân gwyllt ac yna y wledd o gawl a chŵn poeth a baratowyd ar ein cyfer gan aelodau'r pwyllgor. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo — yn y gegin ac ar y cae yn gwylio'r tân a'r tân gwyllt.

Y plant fu'n coginio Tachwedd 13, diolch i Anti Joy am ei risét 'da-da'. Hwyrach y caiff ambell i riant anrheg melys iawn dros y Nadolig.

Noson yn ymarfer a gafwyd nos Fercher, Tachwedd 20, i baratoi at y Cyngerdd Nadolig. Daeth hen ffrind i'r plant, Mr Leslie Jones, cyn-brifathro ysgol y pentref i ymweld â nhw ar Tachwedd 27. Diolch iddo am roi noson ddifyr iddynt.

Cofiwch am ein cyfarfod cyhoeddus ar Rhagfyr 4 am 6, yn y Ganolfan. Dewch i fwynhau paned a mins pei tra'n gwrando ar gyngerdd gan aelodau'r Urdd. Gwneir casgliad tuag at achos da.

Fe gynhelir noson gyda Gill Brown ar Rhagfyr 11, ac yna daw'r tymor i ben ar Rhagfyr 18 gyda disgo.

Daeth llwyddiant i ran rhai o'r plant yn y cystadlaethau nofio. Cafodd Ifan Glyn drydydd yn y ras nofio pili pala dan 10 oed; a Richard Sanderson drydydd yn y ras nofio pili pala dan 12 oed. Daeth tîm cyfnewid y genod yn ail yn y ras nofio rhydd dan 12 oed. Llongyfarchiadau iddynt, a diolch i bawb a fu'n gyfrifol am gludo'r plant i'r nosweithiau.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â Mrs Gwyneth Griffiths, Stad Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth o golli ei hwyr, Dylan, o Gaernarfon.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Lorna a Terry Parry, Afallon, ar enedigaeth eu mab bach, Meurig Llywelyn, ac i Mr a Mrs H. Parry ar ddod yn daid a nain.

Yn Eisiau

'STORAGE HEATERS'

Ffoniwch

WAUNFAWR 673

Diolch yn fawr

Castell Cidwm

Dewch i gael bwyd ym **Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM** ar lan Llyn Cwellyn. **Coginio Prydeinig**, yn gynnil o wahanol. **Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd.** Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Yr Urdd: Bu nifer o aelodau'r Adran yn cystadlu yn y ddwy gala nofio sirol ym mhwll nofio Bangor yn ddiweddar. Yn y gala dan 10 oed, ar Dachwedd 7, daeth Gwenan Michael yn ail yn y ras nofio rhydd a thrydydd yn y ras nofio pili pala; a Nia Thomas y drydedd wobr am nofio cefn. Bu'r aelodau canlynol yn llwyddiannus yn y gala dan 12 oed ar Dachwedd 14 — Irfon Hughes, 3ydd yn ras nofio rhydd; Elen Robinson, 3ydd am nofio cefn; Nia Watkin Jones, 1af yn y ras nofio pili pala ac yn 2il yn y ras gymysg unigol. Daeth tîm y genethod dan 12 oed yn gyntaf yn y ras gyfnewid cymysg. Bydd y rhai a enillodd eu ras yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yng Ngala Nofio Genedlaethol yr Urdd ym mhwll nofio Bangor ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 7, 1991.

Y Neuadd Goffa: Enillwyr Clwb 200 mis Hydref — £20: R. Ll. Jones (126); £10: Mair Price (49); £5: Geraint Elis (97), Collwyn Williams (101), Eirlys Williams (96), Gwyndaf Williams (107), Cheryl Williams (163), Beryl Jones (145), Huw R. Davies (123).

Wedi'r hir ddisgwyl mae'r gwaith ail adeiladu'r Neuadd bellach wedi cychwyn. Gobeithio yn wir y bydd y gwaith yn mynd ymlaen yn hwylus cyn y tywydd mawr ac y cawn edrych ymlaen at ddathlu ailagor y Neuadd yn fuan iawn.

Clwb Pêl-droed: Mae hi wedi bod yn fis prysur a llwyddiannus iawn i'r Clwb pêl-droed. Enillwyd y gêm yn erbyn Garndolbenmaen 6-0 gyda'r tîm i yd yn chwarae yn dda iawn.

Ddydd Sadwrn, Tachwedd 23, chwaraeodd y tîm dan 12 oed yn eu dillad newydd am y tro cyntaf — dillad wedi eu rhoi i'r tîm gan Ysgol Yrru Bethel. Roedd y tîm gwerth ei weld yn eu dillad newydd yn chwarae yn erbyn Cae Gwyn, Caernarfon. Rwy'n siŵr fod pawb yn gwerthfawrogi rhodd hael Mr a Mrs Richard Jones. yr un diwrnod cafodd y tîm dan 8 oed gêm dda yn erbyn Llanllechid.

Ddydd Sadwrn, Tachwedd 30, bydd y tîm yn croesi'r ffin i chwarae yn erbyn tîm cefnogwyr Manchester City ar gael ymarfer Maine Road. Yn y prynhawn bydd y timau a'u teuluoedd yn mynd i weld Manchester City yn chwarae yn erbyn Wimbledon.

Llongyfarchiadau i Bethan Jones, Fachell, ar gael ei dewis fel un o gynrychiolwyr Ffermwyr Ieuainc Cymru ar griw y llong hwylio 'Winston Churchill' ar fordaith pythefnos o Lerpwl i nifer o borthladdoedd Ewrop. Bydd y fordaith yn ystod mis Ebrill ac yn sicr o fod yn brofiad fydd Bethan yn ei gofio am ei hoes.

Gwireddu Breuddwyd: Nos Sul, Tachwedd 11, gwireddwyd breuddwyd Mr Goronwy Jones pan gafodd gyfle i ganu yn y côr. Cafodd hefyd ei wobrwyo ar y rhaglen 'Bwrw Sul' am ei waith yn y gymuned pan gyflwynwyd tocyn iddo ef a Mrs Jones i fwrw'r Sul mewn gwesty pedair seren yn Llundain. Llongyfarchiadau i Goronwy a phob hwyl iddynt yn y ddinas fawr.

Merched y Wawr: Nos Fercher, Tachwedd 13, y ddwy wraig wadd oedd Siân Jones a'i ffrind Cawsom weld sleidiau yn dangos rhai o'r profiadau trychinebus a wynebodd y ddwy pan aethant drosodd i Rwmania i weithio mewn ysbyty. Diolchwyd i'r ddwy gan Mrs Mair Reed. Rhoddwyd arian gwerthiant y bwrdd moes a phryn i gronfa Rwmania. Y gwestwragedd oedd Nora Parry, Sehila Roberts ac Anne Elis. Enillwyd y raffl gan Delyth Williams. Cofiwch y cinio Nadolig yn y Lloft Hwyliau, ar Rhagfyr 11. Enwau mor fuan a sydd posibl i Delyth Williams yr ysgrifenyddes, neu i un o'r swyddogion.

Cydymdeimlo: Ddydd Mawrth, Tachwedd 5, ar ôl gwaeledd hir bu farw Mr Iorwerth Parry, Glasgoed. Symudodd Mr a Mrs Parry yn ôl wedi cyfnod o weithio yng ngogledd Lloegr. Estynnir pob cydymdeimlad â Mrs Parry a'r teulu yn eu profedigaeth.

Ddydd Llun, Tachwedd 11, cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mr Williams, Ffynnon Wen. Roedd Mr Williams wedi bod yn dioddef yn hir o lwch ar yr ysgyfaint. Estynnir pob cydymdeimlad â Mrs Williams yn ei phrofedigaeth.

Y Gymdeithas: Nos Fawrth, Tachwedd 12, cafwyd noson ddifyr iawn yn y gymdeithas dan ofal Mr Elwyn Hughes, Bryn Ogwen. Cafwyd sgwrs ddifyr ar hanes ardal Bethesda.

Clwb y Rhos: Nos Lun, Tachwedd 11, cyfarfu'r Clwb yn yr Archifdy yng Nghaernarfon. Cafwyd cyflwyniad difyr i waith yr Archifdy gan Mr Gareth Heulfryn Williams ac ar ddiwedd y noson cafwyd cyfle i archwilio nifer o hen ddogfennau a mapiau oedd a chysylltiad â'r pentref.

Llongyfarchiadau i Mrs M. G. Williams, Gwylfa, ar ddod yn ail am y gadair yn Eisteddfod Bodffordd yn ddiweddar.

I DDYSGU DREIFIO EFO

STAN

(Ysgol Yrru Rhiwen)

Ffoniwch

Bangor

364143

ARGRAFFIADAU CYNTAF O'R 'STEDDFOD

Roedd Eisteddfod yr Ysgol eleni i'w chynnal yn y neuadd ar y 7fed o Dachwedd. Roedd pawb wedi bod yn brysur yn paratoi ar ei chyfer ers wythnosau.

Dydd Iau oedd hi ac ar ôl cinio roeddwn yn fy nosbarth yn disgwyl i'r gloch ganu i'n galw ni i'r neuadd. Canodd y gloch ac fe aethom i gyd ar frys i'r neuadd. Roedd y eisteddfod yn cael ei harwain gan ddisgyblion y chweched dosbarth. Y peth a hoffais i fwyaf yn y pnawn oedd y ddeuawd ddigri. Cafodd Bryn a Bryn gymeradwyaeth fawr, roedd pawb wedi eu hoffi. Roedd ambell beth diflas yn y pnawn. Daeth amser y pnawn i ben ac roedd pawb i weld wedi mwynhau eu hun.

Roedd y cyfarfod nos i gychwyn am 6.30, a dyma'r cyfle i'r teuluoedd ddod i weld y plant yn cymryd rhan. Dechreuwyd y noson gyda sgets. Fe hoffais honno yn arw. Aethom ymlaen gyda'r adrodd a chanu, ond y peth gorau ar y noson i mi oedd y siarad cyhoeddus. Roedd y gynulleidfa hefyd i weld yn ei hoffi oherwydd roeddynt yn chwerthin ac yn cymeradwyo. Yna roedd y cadeirio. Nid oeddwn yn hoffi'r adeg pan oedd y beirniad yn rhoi ei feirniadaeth ond roedd y genethod bach yn dawnsio yn dda iawn. Y pedwar côr oedd i gloi y noson ac roeddwn i yn yn un ohonynt. Y tŷ a enillodd oedd Gwyrfai.

Mi roedd y noson yn llwyddiannus iawn.

ELLEN JONES, 1E

Bu paratoi am wythnosau at y diwrnod mawr. Mynd i ymarferion côr a pharti Ffrangeg a pharatoi i fynd i ragbrofion adrodd a chystadlaethau eraill.

Ac yn y diwedd y diwrnod yn cyrraedd.

Y diwrnod hwnnw roedd rhabrawf i mi yn y bore, adrodd Saesneg a Chymraeg ac yn y pnawn yr eisteddfod yn dechrau.

Ar ôl cinio eistedd yn y dosbarth yn disgwyl i'r gloch ganu i ni gael mynd i'r neuadd ac eistedd efo aelodau ein tai.

Ar y llwyfan y chweched dosbarth, yn edrych yn bwysig.

Distawrwydd! A dyna'r eisteddfod yn dechrau.

Y partïon Ffrangeg yn dechrau, Eryri a Gwyrfai; Eryri yn ennill. Yna cafwyd llawer o gystadlaethau eraill.

Y noson honno roedd y neuadd yn llawn pobl a disgyblion wedi dod i weld neu gystadlu yn yr eisteddfod.

I ddechrau sgets Eryri. Hyd yn oed os mai sgets Eryri oedd hi roedd yn ardderchog!

Roedd bob dim yn yr eisteddfod yn dda iawn. Y siarad cyhoeddus, deuawdau digri, adrodd, canu, ac yn y blaen.

Roeddwn yn mwynhau bob dim, heblaw am seremoni'r cadeirio. Roedd y seremoni yma yn ddiflas, y beirniad yn siarad am hir a phawb yn disgwyl i weld pwy oedd wedi ennill y gadair. Glenda o Eryri enilldd y gadair. Y pethau gorau am y seremoni cadeirio oedd Eilir ac Euros yn chwarae'r ddau gorn gwlad, a'r ddawns flodau gan fabanod Ysgol Gynradd Llanrug.

Y peth olaf yn yr eisteddfod oedd cystadleuaeth y corau tai. Gwyrfai enillodd y gystadleuaeth yma ond Elidir oedd y gorau, fy nhŷ i, wrth gwrs!

Aeth yr eisteddfod ymlaen tan tua chwarter wedi deg.

Y sgôr yn y diwedd oedd: Eilian 271, Elidir 287, Eryri 309 a Gwyrfai 379.

Yn y diwedd Gwyrfai enillodd. Y beirniad oedd yn anghywir wrth gwrs!

Yr unig gystadleuaeth a enillodd Elidir oedd y parti adrodd.

Be' ddigwyddodd Elidir?

TASHA ALLSUP, 1E

Ers i mi gychwyn yn Ysgol Brynrefail roeddwn wedi bod yn mynd i ymarferion parti bechgyn. Ar y dechrau roeddem yn warthus, ond yn gwella ychydig wrth fynd ymlaen. Hefyd mi wnes i gystadlu ar y clarinet a'r piano ond chefais i ddim byd. Doedd gennyf ddim llawer o obaith yn erbyn plant blwyddyn dau a thri.

Yn eisteddfod y pnawn roedd y plant yn eistedd yn eu tai. Rwyf i yn Elidir.

Yn eisteddfod y nos roeddwn yn nerfus achos roeddwn ofn llithro wrth gario Llŷr o 1S ar fy nghefn yng nghystadleuaeth y parti bechgyn. Roedd pawb yn swnllyd a chynhyrfus yn y nos ac yn clapio yn uchel pan oedd rhywun o'i dŷ fo yn ennill. Y peth roeddwn i yn ei hoffi fwyaf yn y nos oedd y siarad cyhoeddus. Roeddwn hefyd yn hoffi Bryn a Bryn yn gwneud deuawd wirion.

Roeddwn yn siomedig na chafodd Elidir cyntaf, ond cefais hwyl iawn yn eisteddfod 1991.

HUW LLYWELYN JONES, 1E

Dim ond chwe awr, tri deg dau munud tan fydd yna ruthro a'r geiriau: 'A wneith y tri enw canlynol . . .'

Pe buaswn i yn gweld y peth drwy lygaid plentyn bychan buaswn yn gweld:

'Plant mawr, mawr efo wynebau balŵns yn edrych i lawr arnaf, a dyn yn eistedd mewn cadair llawer mwy cyfforddus na'n cadeiriau ni, a phawb yn cynnig pethau neis iddo fo, a phawn yn gwenu'n ddel. 'Sgwn i pam?'

Ia, fel'na y buaswn i'n ei gweld.

Roeddwn i yn ddigon lwcus, neu hyd yn oed yn anlwcus i gael llwyfan ar adrodd. Ond roedd hi'n anrhydedd cael bod ar y llwyfan, hyd n oed os oedd o ddim ond am ychydig funudau.

Roedd yna un peth nad oedd yn deg, sef mai Gwyrfai wnaeth ennill, ond wnai ddim mynd i fewn i'r peth rŵan, mae hi'n stori arall.

Roedd yna gryn dipyn o brysurdeb yn yr wythnosau cyn 'Y Diwrnod' ac roedd y gwaith caled wedi talu yn y pen draw, i rai.

Mewn eisteddfodau mae yna lwyddiant, hapusrwydd a methiant ac weithiau tristwch.

Aeth yr eisteddfod yn llwyddiannus ac mae'n siŵr y bydd hi'n dal i fod felly yn y blynyddoedd i ddod.

Roedd pob peth wedi ei drefnu yn dda a phob peth yn llifo fel afon i'w gilydd. Mae hi'n syndod faint o gystadlaethau y medrwch wneud allan o lais canu, llefaru, gwaith ysgrifenedig a gwneud lluniau.

Roedd y cymeradwyo yn help i gynhesu'r awyrgylch. Do, fe wnes i fwynhau yr eisteddfod. Mi ges i siom ar y ochr arall.

Felly, hei lwc i'r eisteddfod yn 1992!

DELYTH HUMPHREYS, 1E

Amser cinio, amser egwyl, cinio, egwyl bob dydd, paratoi, paratoi, pawb yn brysur am tua chwech wythnos.

Roeddwn i yn iawn yn yr ymarferion ond pan ddaeth y dydd roeddwn yn teimlo'n reit sâl.

Eryri, Eilian, Elidir a Gwyrfai oedd y timau. Mewn ffordd roeddwn i yn meddwl mai Gwyrfai oedd yn mynd i ennill. Roedd pawb yn dweud mai nhw oedd y gora'.

Rydw i yn meddwl mai parti bechgyn Eryri oedd y gora' ond Gwyrfai enillodd wrth gwrs.

Rydw i yn meddwl mai sgets Eryri oedd y gorau eto, ond fe gafodd y ddau dim, sef Eryri a Gwyrfai gydradd gyntaf. Dwi yn meddwl bod gan y beirniad dâst ryfedd ond mae pawb â'i dâst.

Rydw i yn meddwl bod disgyblion dosbarth chwech yn haeddu gwobr am wneud mor dda, yn dysgu ac arwain ar y llwyfan. Doedd neb yn gwrando yn enwedig dosbarth dau a thri. Ond gwnaeth pawb eu gorau ar y llwyfan.

Roedd yr eisteddfod yn gwbl wahanol i beth oedd gennyf i yn fy meddwl.

Roeddwn i yn meddwl bod pawb yn mynd i weiddi a chwibanu a thaflu pethau o gwmpas ond doedd dim byd fel yna yn digwydd.

Fy hoff beth i oedd siarad cyhoeddus yn enwedig un Catrin Tomos ac hefyd mae hi yn EILIAN!

Gwyrfai enillodd, Eryri wedyn, Elidir ac yn olaf fy nhŷ i, sef EILIAN.

SIAN DAVIES, 1E

EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL 1991

Gwyrfai = (G); Eryri = (Er); Elidir = (El); Eilian = (Eil)

CYFARFOD Y PRYNHAWN

Parti Ffrangeg: 1, Eryri; 2, Gwyrfai; 3, Eilian ac Elidir. **Unawd Genethod Dos. 1, 2, a 3:** 1, Lyndsey Vaughan Parry (G); 2, Ellen Morgan (Er); 3, Eleri Robinson (Er). **Adrodd Unigol Dos. 1, 2 a 3:** 1, Lyndsey Parry (G); 2, Delyth Humphreys (Er); 3, Sian Evans (G). **Unawd Piano Dos. 1, 2, a 3:** 1, Nicola Gittins (Eil) a Beverley Roberts (Eil). **Deuawd Ysgafn:** 1, Bryn a Bryn, Eryri ag Eilian; 2, Lynna Lowri, Elidir a Gwyrfai; 3, Elinor a Meinir, Eilian ag Eryri. **Adrodd Saesneg Dos. 5 a 6:** 1, Nia Griffith (G); 2, Tammi Jones (Er); 3, Sara Wood (El). **Unawd Llinynnol Dos 1, 2, a 3:** 1, Llŷr Siôn Roberts (G); 2, Nicola Gibbins (Eil); 3, Lois Dafydd (Er) a Rhys Owain (El). **Unawd Prês Bl. 1, 2 a 3:**1, Sian Elen Thomas (G); 2, Richard Williams (Eil); 3, Mark Parry (Eil). **Unawd Chwythbrennau Bl. 1, 2 a 3:** 1, Eleri Robinson (Er); 2, Lois Druce (G); 3, Caryl Owen (El). **Adrodd Saesneg Bl. 3 a 4:** 1, Llŷr Siôn (G); 2, Donna Williams (G). **Deuawd Agored:** 1, Tammi a Sioned (Er) a (El); 2, Nia a Lyndsey (G); 3, Llŷr a Lowri (G). **Dawnsio Disgo 1 a 2:** 1, Caryl Owen (El). **Dawnsio Disgo 3 a 4:** 1, Kelly Lowther (G).

CYFARFOD Y NOS

Sgets: 1, Gwyrfai ac Eryri; 2, Eilian; 3, Elidir. **Unawd Genethod Dos. 4, 5 a 6:** 1, Delyth Price (G); 2, Lowri Roberts (G) a Sioned Owen (El); 3, Nia Land (G). **Unawd Piano Dos. 4, 5 a 6:** 1, Anna Roberts (G); 2, Sioned Owen (El); 3, Lowri Roberts (G). **Adrodd Unigol Dos. 4, 5 a 6:** 1, Lowri Roberts (G); 2, Nia Griffith (G) a Menna Williams (Eil). **Parti Bechgyn Dos. 1, 2 a 3:** 1, Gwyrfai; 2, Eryri; 3, Elidir; 4, Eilian. **Adrodd Saesneg Dosbarth 1 a 2:** 1, Sian Evans (Eil); 2, Lindsey Parry (G); 3, Gareth Jones (Eil). **Unawd Bechgyn Bl. 1, 2 a 3:** 1, Llŷr Siôn (G); 2, William Lewis (G); 3, Carwyn John (G). **Parti Cydadrodd:** 1, Elidir; 2, Gwyrfai ac Eilian; 3, Eryri. **Unawd Prês Dos. 4, 5 a 6:** 1, Euros Williams (El); 2, Bryn Geraint (Eil); 3, Martin Williams (El). **Cystadleuaeth y Gadair:** 1, Glenda Jones (Er); 2, Anna Roberts (G); 3, Lowri Williams (G) a Bryn Jones (Er). **Unawd Bechgyn Dos. 4, 5 a 6:** 1, Dyfed Jones (Er); 2, Euron Thomas (Er); 3, Bryn Jones (Er). **Siarad Cyhoeddus:** 1, Catrin Thomas (Eil); 2, Tammi Jones (Er); 3, Sioned Meleri (El). Côr Cerdd Dant: 1, Gwyrfai; 2, Eilian; 3, Eryri; 4, Elidir. **Unawd Llinynnol Dos. 4, 5 a 6:** 1, Sara Wood (El); 2, Tammi Jones (Er). **Unawd Chwythbrennau Bl. 4, 5 a 6:** 1, Non Llywelyn Jones (G); 2, Wenna Williams a Lowri Williams (G); 3, Nia Lewis (El). **Côr Tŷ:** 1, Gwyrfai; 2, Eryri; 3, Elidir; 4, Eilian. **Y Tŷ a enillodd fwyaf o farciau offerynnol:** Gwyrfai. **Enillwyr mwyaf o farciau — dan 15 oed:** Lyndsey Parry (G) a Llŷr Siôn (G); **dros 15 oed:** Anna Roberts (G). **Tlws Emma Bernard:** Lowri Angharad (G).

Marciau terfynol:

1, GWYRFAI	**371**
2, ERYRI	**309**
3, ELIDIR	**287**
4, EILIAN	**279**

Grŵp buddugol Blwyddyn 4 ar gystadleuaeth y Gân Fodern.

Y plant a enillodd fwyaf o farciau yn yr Eisteddfod: Anna Roberts dros 15 oed; a Llŷr Sion a Lyndsey Parry yn gyfartal o dan 15 oed.

Lowri Angharad Roberts a enillodd Tlws Goffa Emma Bernard am y perfformiad adrodd unigol gorau.

Buddugwyr ar y ddeuawd ysgafn: Bryn Cerion a Bryn Geraint o Eryri ac Eilian.

Y tri yma enillodd y dair gystadleuaeth Adrodd Saesneg: Nia Griffith, Gwyrfai (Bl 5/6); Llŷr Siôn, Gwyrfai (Bl 3/4) a Lyndsey Parry, Gwyrfai (Bl 5/6).

Sioned Meleri Owen a Tammi Jones enillodd ar y ddeuawd agored.

FFAIR NADOLIG

yn Neuadd yr Ysgol

Nos Wener, Rhagfyr 6ed am 6.30 o'r gloch

Stodindinau, Gemau, Raffl, Paned a Mins Pei

Mynediad **£1**, Plant a Phensiynwyr **50c**. Elw i Gymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYN A KATHLEEN WILLIAMS

HEN YSGOL GLANMOELYN

LLANRUG

Ffôn: 77482

Gwneuthurwyr ffenestri, drysau ac unrhyw fath o gynnyrch coed.
Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara.

CYFARCHION NADOLIG

O GWM-Y-GLO A BRYREFAIL

Mae Joan a Charles Ware

SWYDDFA'R POST a Stordy Cwm-y Glo

Ffôn: 870242

yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'w holl gwsmeriaid

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb

MEDWEN

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Ffoniwch **871213** i drefnu amser

Dymuna Maldwyn a Margaret

Gwesty'r Fricsan

(Snowdon Hotel)

CWM-Y-GLO

Llanberis 870289

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.
Croesewir cyfeillion hen a newydd dros yr Ŵyl.

Hoffem ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

MODURDY

London Garage

GWERTHWR MODURON A PHARTIAU

FIAT

CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis 870234

Arbenigwyr mewn tiwnio moduron

M.O.T.

ODDI WRTH

MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
oddi wrth

C. a D. WAGER

Llythyrdy

BRYNREFAIL

Ffôn: Llanberis 870241

Eich Stôr Leol Deuluol ar gyfer Papurau Newydd, Bwydydd, Ffrwythau, Llyfrau Cymraeg, Llysiau, Melysion, Tybaco

---

Burmah

AM BETROL, DIESEL,
OLEW AC AMRYFAL
ANGHENION MODURO

Burmah

GORSAF BETROL LONDON GARAGE

CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Cydymdeimlo:
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â thelu Miss May Roberts, 9 Dôl Afon yn eu profedigaeth.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ddydd Sul, Tachwedd 17, bu farw Mr Russell Rowlands, Talafon, yn 73 oed. Bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys Sant Gabriel, a bu'n weithgar a chymwynasgar gyda phob gweithgaredd a gynhaliwyd yn y pentref. Bu'r angladd ddydd Iau, Tachwedd 21, yn Eglwys Sant Gabriel ac yna ym Mynwent Llanrug. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Mrs Peggy Rowlands, a'r tri mab, David, John ac Ieuan a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau:
—i Barbara a Peter Thornton, Bryn Crwn, ar enedigaeth mab bach, Peter, brawd i Linsley, Lucy, Louise a Leanne;
—i Karen Foulkes, 2 Tan-y-Bryn, ar ddathlu ei phenblwydd yn 21 oed;
—i Nia Hughes, 17 Dôl Afon, ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yn Hafan Elan, Llanrug, nos Iau, Tachwedd 7. Agorwyd y cyfarfod trwy weddi. Darllenwyd cofnodion o bwyllgor y llynedd a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Cafwyd adroddiad ariannol gan y trysorydd. Ail etholwyd y swyddogion am flwyddyn arall. Diolchwyd i Mrs Joyce Ransom am wneud baner newydd i'r gangen. Cafodd y faner ei chysegru yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, nos Sul, Tachwedd 3, gan y Parch Peter Pritchard. Llongyfrchwyd Mrs D. Pierce am gael ei hethol fel aelod llywyddu Deoniaeth Arfon. Rhoddwyd y raffl gan Mrs E. Taylor ac fe'i henillwyd gan Miss Gwennie Griffiths. Diolchwyd i'r gwesteion — Mrs Taylor a Mrs Ransom — gan Mrs Pierce. Anfonwyd dymuniadau gorau a gwellhâd buan i Mrs Marjorie Roberts a Mrs Joan Williams sydd yn cael triniaethau yn Ysbyty Gwynedd. Cynhelir gwasanaeth o Garolau yn Hafan Elan, nos Iau, Rhagryr 5. Croeso cynnes i bawb. Gorffenwyd y cyfarfod trwy weddi.

Clwb Pobl y Cwm: Ar Hydref 24 bu'n bleser gan y Llywydd gael croesawu Mr Idwal Edwards, Bontnewydd, i'r Clwb. Gan amlaf cawn sgwrs neu rhyw hanes diddorol ganddo ond cwis gawsom ni y tro hwn. Rhannu'r aelodau yn ddwy garfan, a bu'n bnawn hwyliog wrth geisio cofio dyddiadau a digwyddiadau arbennig, a phawb bron yn sylweddoli mor hawdd gollwng y pethau y buom yn ymddiddori ac yn eu gwybod gynt, o'r cof. Bu i un criw ennill o farc a hanner! Diolchodd Mrs G. Chick i Mr Edwards am bnawn difyr iawn. Gofalwyr y baned oedd Mrs J. Parry a Mrs M. Williams, ac enillydd y raffl oedd Mrs E. M. Jones.

Ar 7 Tachwedd profiad arbennig fu cael gwrando ar dâp o waith ein diweddar aelod ac ysgrifennydd, Mr Richard Roberts, Bryn Gro. Bu'n sôn am ei blentyndod a'i lencyndod yn Abergwyngregyn. Bu'n filwr yn Rhyfel Mawr 1914-18, pryd ei cymerwyd yn garcharor rhyfel, a diddorol oedd clywed am ei brofiadau yn y fan honno. Diolch i Mrs Roberts, ei briod, am roi benthyg y tâp i ni. Y gwestwragedd oedd Mrs G. Pritchard a Mrs M. Parry. Enillwyd y raffl gan Mr R. H. Parry a thalwyd y diolchiadau gan y llywydd, Mr Llew Hughes.

Ysgol Gymuned Cwm-y-glo:
'. . . di-raen, di-rinwedd, llwyd ei wisg . . .' Dyna'n union sut mae Tachwedd wedi bod hyd yma. Gwynt a glaw. Cymaint o'r ddau ar un diwrnod fel y bu bron i mi fethu a mynd adref dros y bont! Er fe gefais gynnig gwely am noson — gan ffrind.

Cawsom Wasanaeth Diolchgarwch bendithiol iawn. Pawb yn cymryd rhan a chasgliad teilwng iawn tuag at y deillion. Efo'r hyn fu'r plant yn gasglu hefyd, cyflwynwyd siec o £147 i'r Gymdeithas. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ers dechrau'r mis mae yma ddau o fyfyrwyr o'r Coleg Normal efo ni, Miss Meleri Jones a Mr Derfel Griffiths. Yn anffodus mae Derfel dan y ffliw — ond dymunwn yn dda i'r ddau am eu cyfnod yma.

Fasa chi ddim yn nabod neb yma ar Tachwedd 11. Gwyneb pawb yn sgleinio a phob blewyn o wallt yn ei le. Y rheswm am hyn oedd fod y 'dyn tynnu lluniau' yma. Mae pawb yn edrych ymlaen at weld y lluniau ymhen rhyw bythefnos.

Yn ystod yr un wythnos, cafwyd ar ddeall fod Miss Carol Ronchy wedi ei lleoli yma am y ddwy flynedd nesaf. Plesiwyd pawb efo'r newydd da yma.

Fore Llun, Tachwedd 25, galwodd fan y Cyngor Llyfrau yma i ni gael gweld y llyfrau Cymraeg diweddaraf. Bydd sawl un wedi gweld syniadau da am anrhegion Nadolig yn y fan honno.

Yn ystod y mis diwethaf mae rhai o gyfeillion yr ysgol wedi bod yn sâl, ac eraill wedi cael profedigaethau. Anfonwn ein cofion at bawb.

Tan y mis nesaf, hwyl fawr ac yn iach a di-bechod y boch.

CABS LLANRUG

C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

Cymdeithas Wyddonol Gwynedd

Cynhelir darlith ar *Positronau* gan yr Athro C. Griffith, yn narlithfa'r Adran Amaethyddiaeth, Coleg y Brifysgol, Ffordd Deiniol, Bangor, am 7.30 nos Fawrth, Rhagfyr 3.

Dyma raglen y Gymdeithas ar gyfer 1992:
Ionawr 7 — Dr G. Ll. Jones, Prifysgol Bangor, *Bio Composites*. Chwefror 4 — Dr Ioan ap Dewi, Prifysgol Bangor, *Epilgarwch Mewn Defaid*. Mawrth 3 — Dr I. P. Williams, Coleg Queen Mary, Llundain, *Mathemateg a Seryddiaeth*. Mawrth 27: Noson Gymdeithasol.

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Noson Tân Gwyllt: Bu'r noson Tân Gwyllt eleni eto yn llwyddiant mawr. Mae ein diolch i bawb a drefnodd bopeth ar gyfer y noson a chynnal arddangosfa mor adderchog.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, Tachwedd 18, cyfarfu'r gangen leol yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones, a hwn oedd y Cyfarfod Blynyddol. Croesawyd Mrs Maud Williams fel V.C.O. ynghyd â'i chynhorthwy, Mrs Jennie Montegue. Etholwyd y Swyddogion canlynol ar gyfer 1991-92 — Llywydd: Mrs Pat Jones; Ysgrifennydd: Mrs Betty Owen; Trysorydd: Mrs Eirlys Williams; ynghyd â Mrs Jennie Roberts, Mrs Jennie Hughes, Mrs Gwenllian Edwards, Mrs Dwynwen Williams, Mrs Ifanwy Jones, Miss Lowri P. Roberts, Mrs Carol Houston, Mrs Mai Davies a Mrs Euronwy Roberts i weithredu ar y Pwyllgor. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Ifanwy Jones a Miss Lowri P. Roberts ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Anita Long, gan Mrs Ifanwy Jones. Anfonwyd cofion at Mrs Mai Davies oedd wedi cael anffawd yn ddiweddar. Cafodd nifer o aelodau'r gangen noson bleserus nos Iau, Hydref 10, pan gymerasant ran mewn noson Fictoraidd yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon, a rhoddwyd y wobr am wisg orau'r noson i Mrs Pat Jones. Yn y Chwaraeon a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Arfon, roedd Mrs Pat Jones hefyd yn aelod o dîm badminton Gwyrfai. Daeth tîm Gwyrfai yn gydradd â thîm Llŷn ar derfyn noson o wahanol chwaraeon ac aerobics.

Cynhelir Ffair Nadolig, dan nawdd y Sefydliad, yn y Festri, nos Iau, Tachwedd 28; a bydd y Cinio Nadolig yng Ngwesty Llyn Padarn, Llanberis, nos Wener, Rhagfyr 13.

Cofion: Anfonwn ein cofion at Mrs Maggie Williams, 4 Tai Orwig, sydd gartref wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd Mrs Nellie Parry, Gwynfa, sydd gartref o'r un ysbyty wedi derbyn triniaeth a Miss B. E. Owen, 2 Tai Orwig, sydd yn Ysbyty Eryri, yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Gwasanaethau Nadolig: Bydd Brynrefail eleni yn cael y pleser o groesawu y Cyfarfod Carolau blynyddol a drefnir gan Ffederasiwn Gwyrfai o Sefydliad y Merched. Bydd y cyfarfod, a fydd ar ffurf 'Gwasanaeth Plygain', yn cael ei gynnal yng Nghapel M.C. Brynrefail, nos Fawrth, Rhagfyr 10fed.

Cynhelir Gwasanaeth Carolau Blynyddol Eglwys M.C. Brynrefail, ddydd Sul, Rhagfyr 22, am 2 o'r gloch, pryd y cymerir rhan gan blant, ieuenctid ac aeldau'r Eglwys. Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau hyn.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Dymuniadau da: Pob dymuniad da a hapusrwydd i Derek a Gillian Jones sydd wedi ymgartrefu yn Catref, Tai Trefor.

Diolch: Dymuna Mrs N. Morris, Awelfryn, ddiolch i'w pherthnasau a'i ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a blodau a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 80 ar Hydref 16.

Croeso adref i Rachel, merch fach mr a Mrs G. Jones, 9 Bro Rhyddallt ar ôl bod yn yr ysbyty am gyfnod.

Cydymdeimlwn â Mrs H. Williams, Dwyfor yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer-yng-nghyfraith o Dalysarn.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

CYFARCHION Y TYMOR
A'R DYMUNIADAU
GORAU AM Y FLWYDDYN
NEWYDD
oddi wrth
GWYN OLIVER JONES

Bar Swper Arfonia

DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 870048

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYMER, HILDA, NICOLA A LYNDSEY PARRY

SIOP CIGYDD BRISTOL HOUSE DEINIOLEN

Llanberis 870297
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

AR AGOR
Llun - Gwener 8am - 10pm
Sadwrn 9am - 10pm
Sul 10am - 9pm

VG LATE STOP

Stryd Newydd
DEINIOLEN
Ffôn: 870171

Diolch am bob cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn . Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Pam a'r holl staff

---



Ffôn: LLANBERIS 870856
ADEILADWYR A CHONTRACTWYR

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
BILL, LIZ, FIONA a RHIANNON

SWYDDFA'R POST DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 878283

Mae John a Mary Leach a staff

BECWS DEINIOLEN

yn dymuno ichi Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda. Diolch i bawb a'n cefnogodd yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

SLING

GOLYGFEYDD I DELEDU A FFILM

Tabernacl Ffordd Deiniol DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 872044

Dymuna **NEVILLE**
JEAN A STAFF

Y TARW BULL INN DEINIOLEN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i gwsmeriaid a chyfeillion oll

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
KEN, DAWN A'R STAFF

WELLINGTON INN

Deiniolen
Ffôn: Llanberis 870227

Cwrw blasus – chwerw ar ei orau

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB ODDI WRTH

T. W. THOMAS

'SGUBWR SIMNAI

PENLAN, GALLTYFOEL,
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 872288

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN YSTOD Y FLWYDDYN

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Enillwyr Clwb Cant Plaid Cymru am fis Tachwedd — £10: Mrs G. R. Fretwell, 21 Heol Gelert, Caernarfon; £8.50: Miss Eileen Williams, 37 Rhydfadog.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, 4 Tachwedd cyfarfu'r aelodau a chafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr Ll. Griffiths, Pen-y-groes. Roedd yn dangos ffilmiau o wahanol wledydd tramor. Diolchwyd iddo gan Mrs Marian Williams.

Llongyfarchwyd dwy aelod a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Gwaun Gynfi — enillodd Mrs Eirlys Williams wobr am ysgrifennu sgets, a Miss Jean Moeller am ganu (dysgwyr), hefyd enillodd wobr am waith llaw. Enillwyd y raffl gan Mrs H. J. Thomas, gwnaed y te gan Mrs B. Wyn Davies a Mrs Glenys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar 2 Rhagfyr, pryd y disgwylir Mrs Pat Jones, Brynrefail y V.C.O. atom.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Megan Bailey, 95 Pentre Helen, a'r teulu ddiolch yn fawr iawn am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn o golli brawd ac ewythr annwyl iawn, sef Mr Ronald Powell, Llundain (Deiniolen gynt).

Dymuna Keith a Beverley, 35 Rhydfadog, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Bydd y ddau yn ymgartrefu yn 'Rhoslwyn', Rhos Isaf.

Dymuna Lona Lewis, 36 Rhydfadog, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod y misoedd diwethaf yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, ac hefyd yn ystod ei gwaeledd gartref ac yn Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Colin a Sandra ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a'r llu cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Priodas: Yn Eglwys Crist Llandinorwig priodwyd Sandra, merch Alun a Lona Lewis, 36 Rhydfadog, â Colin, mab Raymond a Deiana Roberts, 19 Stâd Eryri, Bethel. Gweinyddwyd gan y Deon Gwlad, y Parchedig D. Noel Jones a'r Parchedig W. J. Lewis. Yr organydd oedd Mr Timothy Hughes a chanwyd deuawd yn ystod y gwasanaeth gan Mr Dafydd Roberts a Mrs Ann Williams. Y gwas priodas oedd Carlo Verweij a'r morwynion oedd Meinir Williams, Sharon Verweij, Lyndsey Lewis, Katie Louise Catherall, Catrina Verweij. Rhys Wyn Morris oedd y macwy a Dylan, Gwyn Lewis a Llion Roberts oedd y tywyswyr.

Cynhaliwyd y neithior yng Nghwesty'r Sant Siôr, Llandudno. Mae'r pâr ifanc wedi ymgartrefu yn 'Rhyd Eryri', 6 Stryd yr Afon, Trefor.

10fed EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI (Deiniolen a'r Cylch)

Beirniaid — Cerdd: Mr Walter Glyn, Amlwch; Adrodd: Mrs Mair-lyn Lewis, Abergele; Llên: Mr Ieuan Wyn, Bethesda.

Adrodd (Adran Feithrin a Dos. 1: 1, Heledd Bryn Parri; 2, Kevin; 3, Donna. **Dos. 2 a 3:** 1, Lowri; 2, Gethin; 3, Tristan. **Safon 1 a 2:** 1, Rhian; 2, Elfed. **Safon 3 a 4:** 1, Alaw Mari; 2, Jennie Lynn. **Parti Cyd-adrodd dan 12 oed:** 1, Parti Jennie; 2, Parti Shan. **Adrodd dan 15 oed:** 1, Deiniol, Llanrwst; 2, Alaw Mari, Deiniolen; 3, Michelle, Llanrug. **Adrodd dan 19 oed:** 1, Einir Gwenllian, Ynys Môn; 2, Deiniol; 3, Lyndsey. **Adrodd dan 25 oed:** 1, Enlli Môn, Llanfairpwll. **Adrodd o'r Ysgrythur:** 1, Enlli Môn, Llanfairpwll; 2, Lyndsey V. Parry. **Araith (agored):** 1, Lyndsey V. Parry. **Prif Adroddiad:** 1, Meira Turner, Waunfawr; 2, Olwen Hughes, Ynys Môn.

Canu (Adran Feithrin a Dos. 1): 1, Heledd Bryn Parri; 2, Ffion, Bedwyr Parri; 3, Ruth, Donna. **Dos. 2 a 3:** 1, Tristan Morris; 2, Gethin a Lowri; 3, Michelle. **Safon 1 a 2:** 1, Elfed Mogan Morris; 2, Rhian; 3, Rhodri. **Safon 3 a 4:** 1, Alaw Mari; 2, Shaun; 3, Jennie Lynn. **Unawd Cerdd Dant dan 12 oed:** 1, Alaw Mari; 2, Jennie Lynn; 3, Rhian a Shaun. **Cân Werin dan 12 oed:** 1, Shaun; 2, Alaw Mari; 3, Rhian a Jenny. **Unawd Piano dan 12 oed:** 1, Alaw Mari; 2, Eiriona. **Parti Canu dan 12 oed:** 1, Parti Elfed. **Unawd Offerynnol 12 i 15 oed:** 1, Euros Williams, Deiniolen; 2, Nia, Llanrug a Martin Llewelyn; 3, Bethan, Deiniolen. **Unawd dan 15 oed:** 1, Llŷr, Llanrug; 2, Deiniol, Llanrwst; 3, Lyndsey, Deiniolen. **Unawd Cerdd Dant dan 19 oed:** 1, Llŷr; 2, Lyndsey; 3, Nia. **Cân Werin dan 19 oed:** 1, Lyndsey V. Parry; 2, Llŷr; 3, Bethan. **Deuawd dan 19 oed:** 1, Delyth a Hefina, Pentir; 2, Lyndsey a Nia, Deiniolen; 3, Carys a Bethan. **Unawd dan 19 oed:** 1, Carys Hughes, Amlwch; 2, Lyndsey, Deiniolen; 3, Nia Land, Pentir. **Deuawd Offerynol dros 12 oed:** 1, Sion Wyn a Dylan; 2, Euros ac Eilir. **Unawd Piano dan 19 oed:** 1, Einir Gwenllian; 2, Gwynedd; 3, Sarah, Dinorwig. **Unawd Cerdd Dant (agored):** 1, Aled Wyn, Llangefni; 2, Lyndsey V. Parry, Deiniolen. **Unawd Offerynol dan 12 oed:** 1, Jenny Lynn; 2, Richard ac Alaw; 3, Maria. **Unawd i ddysgwyr Cymraeg:** 1, Miss Moeller. **Unawd dan 25 oed:** 1, Glenys Hiraethog, Llanrwst; 2, Aled Wyn, Llangefni. **Deuawd dros 19 oed:** 1, Alun Mabon ac Emyr Jones; **Unawd Offerynnol (agored):** 1, Eilir Williams, Deiniolen; 2, Siân, Deiniolen; 3, Martin ac Euros, Deiniolen. **Canu Emyn Dôn dros 50 oed:** 1, Katie Wyn, Llandwrog; 2, Griff, Ysbyty Ifan; 3, Alun Mabon, Waunfawr. **Cân Werin dros 19 oed:** 1, Aled Wyn, Llangefni; 2, Alun Mabon, Waunfawr; 3, Griff Ellis, Ysbyty Ifan. **Her Unawd:** 1, Clarence Jones, Llangefni; 2, Emyr Jones, Llangefni; 3, Aled Wyn, Llangefni; 4, Alun Mabon, Waunfawr. **Côr neu Barti:** 1, Clychau'r Grug, Llanrug. **Cyfansoddi Tôn:** 1, Iestyn D. Harries, Dyfed.

Adran Lenyddol. Adran Feithrin a Dos. 1: 1, Heledd Bryn Parri; 2, Ruth Edge; 3, Ceri. **Dos. 2 a 3:** 1, Robin Glyn; 2, Michelle; 3, Tristan Ellis Morris. **Safon 1 a 2:** 1, Rhodri Glyn; 2, Rhian Meleri; 3, Kelly Ann Davies. **Safon 3 a 4:** 1, Alaw Mari; 2, Jennifer Coreless; 3, Leah Edge. **Barddoniaeth dan 12 oed:** 1, Jennie Lyn Morris. **Rhyddiaith dan 15 oed:** 1, Lyndsey V. Parry; 2, Sian Ellen. **Barddoniaeth dan 19 oed:** 1, Lyndsey V. Parry. **Medal Lenyddol dan 21 oed:** Lowri Angharad, Llanrug. **Telegram (agored):** Miss Ellen W. Jones, Dinorwig; **Stori Fer (agored):** Gwilym Meredydd Jones. **Englyn Digri (agored):** Gwyn Davies, Waunfawr. **Englyn (agored):** Iolo Hughes-Roberts, Waunfawr. **Asio Emyn (agored):** Mrs M. G. Williams, Bethel. **Llunio sgets (agored):** Eirlys Williams. **Telyneg (agored):** John Williams, Llanerchymedd. **Traethawd (agored):** Miss Ellen W. Jones. **Limrig (agored):** John P. Jones, Deiniolen. **Llinell Goll (agored):** William Orwig, Deiniolen. **Baled (agored):** John Williams, Llanerchymedd. **Creu Brawddeg (agored):** Mary W. Jones, Deiniolen. **Cystadleuaeth y Gadair:** Parchedig Idris Thomas, Trefor.

Llongyfarchiadau i Alaw Mari Huws a enillodd saith gwobr gyntaf yn Eisteddfod Gwaun Gynfi. Hefyd hi aeth a'r cwpan am y perfformiad cerddorol gorau, a chwpan am y gwaith llenyddol gorau dan 12 oed.

Arlunio. Ysgol Feithrin: 1, Caroline; 2, Justine; 3, Beverley. **Dos. Meithrin ac 1:** 1, Mark; 2, Alete; 3, Rachel. **Dos. 2 a 3:** 1, Ben Boothroyd; 2, Sian Owen; 3, Lowri ann a Rhian Owen. **Safon 1 a 2:** 1, Jonathan Roberts; 2, Ruth March; 3, Rhian Jones. **Safon 3 a 4:** 1, Hywyn Parry; 2, Christopher Thomas; 3, Steven Thomas. **Bl. 1 a 2 Ysgol Uwchradd:** 1, Richard W. Williams; 2, Sian Ellen Thomas; 3, Bethan Williams. **Bl. 3 a 4 Ysgol Uwchradd:** 1, Euros W. Williams. **Dros 19 oed:** 1, Mr Hugh T. Jones.

Gwaith Llaw. Ysgol Feithrin: 1, Caroline. *Dos. Meithrin ac 1:* 1, Gethin. **Dos. 2 a 3:** 1, Tristan Morris. **Safon 1 a 2:** 1, Rhian Jones; 2, Urien Sion. **Safon 3 a 4:** 1, Alaw Mari Hughes; 2, Jenny Lynn Morris; 3, Shaun Jones. **Bl. 5 a 6 Ysgol Uwchradd:** 1, Nicola Parry, Deiniolen.

Gwau. Disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Alaw Mari; 2, Beverley; 3, Debbie. **Dan 15 oed:** 1, Bethan Williams, Deiniolen; 2, Eleri Wyn Evans, Deiniolen; 3, Siân W. Evans a Lyndsey Parry. **Dros 15 oed:** 1, Elan.

Gwnïo. Disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Alaw Mari; 2, Lyn; 3, Bethan a Debbie. **Dan 15 oed:** 1, Lyndsey V. Parry. **Dros 15 oed:** 1, Hayley Williams. **Brodwaith:** 1, Nancy Marian

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll oddi wrth **Tim, Jackie a phawb yng**

NGORSAF BETROL

BERAN

DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn: Llanberis 870545

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH

JAVED A SHAHEEN HAQ

SWYDDFA'R POST

CLWT Y BONT

Ffôn: 870325

Cynrychiolwyr: AMAZON GAS, RADIO RENTALS
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r Flwyddyn

Williams, 2, Miss Jean Moeller.

Coginio. Dan 8 oed: 1, Rhian Jones; 2, Trystan Ellis Morris. **Dan 12 oed:** 1, Jennie Lyn Morris; 2, Elfed Morris; 3, Shaun a Debbie. **Dan 15 oed:** 1, Elena Williams; 2, Tanya Marie a Sian Ellen; 3, Bethan Williams. **Dros 25 oed:** 1, Elan Williams; 2, Gwen Griffiths a Nancy Marian; 3, Valmai Williams. **Jam Cartref (agored):** 1, Brenda Williams; 2, Brenda Williams ac Annie Thomas. **'Quiche' (agored):** 1, Nicola Parry; 2, Violet Richer. **Hen Grefftau Cymreig:** 1, Len Porter; 2, John Morris, Rhianfa; 3, Huw Morris.

Ffotograffi. Dan 12 oed: 1, Trystan Ellis Morris; 2, Jennie Lyn Morris; 3, Urien Siôn Hughes. **Dan 25 oed:** 1, Nicola Parry. **Agored:** 1, Eifion W. Hughes; 2, Iwan Williams; 3, Hefin Goronwy.

Trefniant Blodau. Dan 12 oed: 1, Elfed Morgan Morris; 2, Jennie Lyn Morris; 3, Alaw Mari Hughes a Debbie Richer. **Dan 19 oed:** 1, Tanya Marie Thomas.

Cwpan Celf a Chrefft dan 12 oed: Hayley Williams.

Cwpan Adran Lenyddol: Alaw Mari Hughes.

Cwpan Adrodd dan 12 oed: Gethin.

Adran Gerdd: Alaw Mari.

Cwpan Clwb Snwcer: Len Porter.

Undeb y Mamau: Cyfarfu aelodau y Gangen yn Eglwys Crist, Llandinorwig, nos Fawrth, 5 Tachwedd. Y siaradwr gwadd oedd Mr Glyn Tomos, Dinorwig, a rhoddodd sgwrs ddifyr ar ei waith fel gweithiwr cymdeithasol yn ardal Pwllheli.

Nos Wener, 8 Tachwedd, cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn er budd cronfa'r Eglwys. Dymuna'r Parch Tegid Roberts ddiolch i bawb a gyfranodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y noson.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 3 Rhagfyr, pryd y disgwylir Miss Doris Adlam, Penisarwaun, i'n hannerch.

CHWILOTA DŴR GLÂN

Erbyn heddiw rydym yn derbyn yn ganiataol bod dŵr glân yn llifo'n ddi-drafferth i bob tŷ yn yr ardal, ond nid felly roedd hi. Mae hanes y cynlluniau cynharaf o gael cyflenwad o ddŵr i gartrefi'r fro yn un diddorol, er nad yw wedi ei gofnodi'n llawn.

Mae peth gwybodaeth ar gael ym mhapurau'r Faenol am waith dŵr yn ardal Deiniolen (er na ddefnyddid yr enw hwnnw bryd hynny). Y cwmni a sefydlwyd i'r pwrpas o ddod â dŵr i'r ardal honno oedd yr *'Ebenezer and Clwt y Bont Waterworks Company'*, a daw'r cofnod cyntaf amdano ar 12 Mawrth 1877. Ar y dyddiad hwnnw arwyddwyd dogfen yn rhoi lês ar lain o dir yn Llandinorwig ym meddiant G. W. Duff Assheton Smith *'for the purpose of erecting a reservoir'*. Roedd y lês i brhau am 60 mlynedd ar gost o £6 y flwyddyn.

Cyfarwyddwr yr *'Ebenezer and Clwt y Bont Waterworks Company'* oedd William Rowlands, Beehive, Ebenezer *(draper)*; William Williams, Vaynol House, Ebenezer *(flour dealer)*; Thomas Herbert, Birmingham Hokuse, Ebenezer *(ironmonger)*; Owen Ellis Owen, Goodman Street, Llanberis *(plumber and glazier)*; a William David Pritchard, Clwt y Bont *(accountant)*. Tybed oes rhai o'u disgynyddion yn parhau i fyw yn yr ardal heddiw? Mae'r copi o'r map (1877) yn dangos safle'r gwaith dŵr ar dir Trosgol.

Mae'n amlwg fod Assheton Smith wedi sylweddoli fod poblogaeth yr ardal ar gynnydd, oherwydd bu'n rhaid i'r cwmni arwyddo cytundeb yn cadarnhau fod rent ychwanegol o ddeg swllt am bob 100 o'r boblogaeth dros 2,000 i'w dalu i'r Faenol. Yn ychwanegol, roedd yn rhaid i'r cwmni dalu o leiaf £1,200 i wneud yr argael yn ddiogel.

O. E. Owen oedd yr unig gyfarwyddwr o'r tu allan i ardal Ebenezer. Roedd hwn yn amlwg a'i lygad ar wneud ceiniog neu ddwy o'r galw am ddŵr glân. Yn yr un flwyddyn cyflwynodd gynllun tebyg yn ardal Llanberis — cynllun i gyflenwi y Victoria Hotel, Pentre Castell, Gelli Hirbant, Bing a Blanyddol. Mae olion y cynllun hwn i'w weld yng nghoed Victoria heddiw. Yn anffodus mae'n ymddangos i O. E. Owen fethu'n ariannol ac iddo adael y wlad. Trosglwyddwyd ei gyfran ef yng ngwaith Ebenezer i weddill y cyfarwyddwyr.

Mae'n amlwg mai Rowlands a Herbert oedd y prif gyfranddalwyr: roeddent yn berchen ar hanner siariau'r cwmni. Yna, ym mis Chwefror 1885, gwerthodd Rowlands ei siâr i Herbert am £87 5s. 0d.

Erbyn 1894 roedd Herbert wedi marw, ac oherwydd i'w weddw, Jane Herbert, hefyd farw cyn profi ei ewyllys, gwerthwyd siâr Herbert o'r cwmni mewn ocsiwn. Prynwyd hwy gan Richard Roberts, Bron Ceris, Caernarfokn am- £130. Digwyddodd yr ocsiwn ar 4 Ionawr 1894, ac yna, union ddiwrnod yn ddiweddarach, gwerthwyd y cyfan unwaith eto am £135 i William D. Pritchard o Glwt y Bont — sef *accountant* gwreiddiol y cwmni. Tybed a oedd rhyw arwyddocâd yn y pryniant a'r gwerthiant sydyn hwn?

Ym mis Medi 1899 gwerthwyr tri chwarter y cwmni i David William Davies, Moss Bank, Caernarfon, ac yna, ddeng mlynedd yn ddiweddarach, trosglwyddwyd lês Assheton Smith i Gyngor Gwledig Gwyrfai.

Dyna'r esgyrn sychion. Tybed oes rhywrai o'r darllenwyr â gwybodaeth ychwanegol fel y gellir rhoi mymryn o gig am yr esgyrn rheini?



Byr nodiad terfynol am yr Efail Newydd

gan John E. Williams

Er nad wyf yn hynafiaethwr, edmygan ddyfalbarhad Angharad Rhys Williams yn rhoddi i ni ychwaneg o hanesyddiaeth Bro Deiniiol a'i chyn drigolion, yn enwedig rhai'r Waen Rhythallt a'r Efail Newydd. Ni fydd yn gymwynas â neb fodd bynnag i mi ddadlenu enw'r bonheddwr hwnnw a honnai gysylltiad teuluol â'r olaf anedd. Gwn ei fod yn darllen yr *Eco*, ac nad oes angen eiriolwr arno i gyhoeddi ei syniadau.

Carwn nodi fodd bynnag, mai os enw wedi ei goginio yw Allt Riwth — sydd gyda llaw yn gyfeiriad Post safonol erbyn hyn — nid myfi yw'r cogydd. Roedd yn enw cyffredin ar y fan ar dafodau plant y fro, ac yn enwedig pobl Stabla, hanner canrif a mwy yn ôl. Buaswn yn dychmygu, mai rhagor na chreu amryfusedd ymysg pobl chwilfrydig yr oesoedd â ddel (os hefyd), buasai'r gosodiad yn peri iddynt ofyn, pwy oedd y Riwth 'ma?; yn union fel y cysylltiad rhwng Sam a'i Allt yng Nghlwt-y-Bont.

Mae Riwth Jones a'i siop, os nad ei hallt wedi ennyn diddordeb amryw; yn enwedig felly drigolion presennol y Fron Oleu (Siop Riwth) sydd trwy gost a thrafferth wedi mynnu cael chwydd-lun ohoni i'w grogi mewn ffram ar eu parwydydd, fel nas gall yr un ymwelydd beidio â sylwi a holi yn ei gylch. O gyffelyb weithgaredd mae traddodiad gwerin yn cael ei 'wneud' yn ffatri eiriau rhywun. Beth elwid Eryri cyn dyfodiad yr adar?

Beth hoffech chi gael yn enw ar yr allt yma Angharad? Cannabis Rise? Mae 'na gyflenwad o'r cyffur hwnnw wedi bod ar gael yma yn gymharol ddiweddar. Ac mae'r Efail Newydd erbyn hyn ar ei Newydd, newydd wedd, a'r enw gwneud am y fangre erbyn heddiw ddyliwn yw: Cowboy Palace. Ex-Tenerbris-Lux.

CRIB COCH
Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 76772
TRIN GWALLT I BAWB O'R TEULU GAN JEN
Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

MEITHRINFA BREIFAT 'Sant Joseph'
Lawn neu Ran Amser
Oedran 4 mis i 4 oed
Staff dwyieithog ar gael
Cysylltwch â Sister Joan
C'fon 672283

CARPEDI GLÂN!
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

Dyddiadur y Mis

RHAGFYR

2 Llun. Deiniolen: Sefydliad y Merched.

3 Mawrth. Bangor: Cymdeithas Wyddonol Gwynedd. Darlith yn Narlithfa Adran Amaethyddiaeth Coleg Prifysgol Gogledd Cymru am 7.30. **Llanrug:** Y Gymdeithas Lenyddol yn Festri Pontrhythallt. **Deiniolen:** Undeb y Mamau am 7.

4 Mercher. Llanrug: Plaid Cymru — Ffair Nadolig yn yr Ysgol Gynradd am 6.30. **Dinorwig:** Eisteddfod Bentref yn Y Ganolfan am 6.30. **Waunfawr:** Yr Urdd — Cyfarfod Cyhoeddus yn Y Ganolfan am 6.

5 Iau. Yr Ardal: Clwb Eryri yn Llanberis. **Yr Ardal:** Undeb y Mamau — Gwasaneth Carolau yn Hafan Elan, Llanrug.

6 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8. **Llanberis:** Capel Coch — Cyngerdd gyda Chôr Meibion Dyffryn Peris a Lleisiau Lliwedd. Elw at Hospis yn y Cartref.

7 Sadwrn. Yr Ardal: Ffair Nadolig yn Ysbyty Gwynedd, elw at MAID, am 2 o'r gloch.

10 Mawrth. Brynrefail: Ffederasiwn Gwyrfai Sefydliad y Merched — Gwasanaeth Plygain yng Nghapel Brynrefail. **Llanrug:** Merched y Wawr — Noson Carolau a gwrando ar Glychau Dwylo.

11 Mercher. Yr Ardal: Cwmni Bara Caws yn perfformio 'Fi a Mr Louigi' yn Ysgol Brynrefail am 7.30. Llanrug: Y Gymdeithas Lenyddol yn y Capel Mawr — sgwrs gan Collwyn Williams, Swyddog Tân. **Waunfawr:** Yr Urdd — noson dan ofal Gill Brown. **Bethel:** Merched y Wawr — Cinio Nadolig yn y Llofft Hwyliau.

12 Iau. Penisarwaun: Ysgol Tanycoed — Gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Santes Helen am 1.30 a 6.00.

13 Gwener. Llanrug: Cyngerdd y Seindorf yn Ysgol Brynrefail am 7.00. **Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8. **Brynrefail:** Sefydliad y Merched — Cinio Nadolig yng Ngwesty Llyn Padarn, Llanberis.

15 Sul. Llanrug: Capel Mawr — Te Parti'r Ysgol Sul am 3.00.

16 Llun. Waunfawr: Y Gymdeithas Lenyddol — Noson o ffilmiau.

18 Mercher. Waunfawr: Yr Urdd — Disgo.

20 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.00.

22 Sul. Llanrug: Capel Mawr — Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul am 10 y bore; Carolau y Gymdeithas Lenyddol am 5.30. **Brynrefail:** Gwasanaeth Carolau am 2. **Penisarwaun:** Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Bosra.

23 Llun. Penisarwaun: Ysgolion Sul Santes Helen a Bosra — ymweliad Siôn Corn, yn Neuadd yr Eglwys. **Llanrug:** Noson Carolau a Mins Peis yn Ystafell y Band am 7.00.

25 Mercher. NADOLIG LLAWEN. Dinorwig: Gwasanaeth Cymun am 10 y bore yn Eglwyd y Santes Fair.

26 Iau. Gŵyl San Steffan.

31 Mawrth. Nos Calan.

CROESAIR RHAGFYR



AR DRAWS

1. Aderyn gwyrdd (5)
4. Disgrifiad o Bapur Bro (7)
8. Siarad ag ef ei hun heb neb yn ei glywed (5,4)
9. Rhai Caer yn y bore bach (3)
10. Seremonïau'r Orsedd (7)
12. Act heb siarad (4)
14. Mwy nag un yn crawcian (3,4)
17. Cyflym (4)
18. Nwy bywyd (7)
20. Tynnu'r olaf o'r 'tŷ aros' (3)
21. Anfonwyd gan wraig fy nhad (6,3)
23. Gosod yn wastad (7)
24. Gweinidog yn yr Eglwys (5)

I LAWR

1. Offer bwyta (3,4,1,5)
2. Amser clwydo neu fynd i'r gwely (6)
3. Clec y gwn (3,5)
4. Testun telynegion gan Eifion Wyn (3)
5. Cydymaith swae (4)
6. Barf fenywaidd (6)
7. Pentref gerllaw Beddgelert — llenyddol a llafar gwlad (7,1,5)
11. Symud fel pysgodyn (5)
13. Gorgonsola neu'r Glas o Ddenmarc i enwi dau (4,4)
15. 1,760 llathen (6)
16. _ _ 'Hwyl' y daeth Tomi Puw (1,5)
19. Un da yw'r dymuniad (4)
22. Cablyd neu Dyrchafael (3)

ATEBION TACHWEDD

RHODDION

£25: Teulu Rudkin, Llanberis.
£20: Mrs S. O. Edwards, Llanrug.
£5: Mr a Mrs A. Lewis, 36 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Megan Jones, Wern, Llanrug.

ENILLYDD Y MIS

Dau groesair yn unig a ddaeth i law — ac un o'r rheiny yn ddi-enw! Ymddiheuriad i bawb am fod dau sgwâr du wedi eu gadael yn wyn. Yr enillydd felly yw M. Williams, Llwynffynnon, Pistyll.

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod
Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i
J R PRITCHARD, 14 Glanrafon, Bontnewydd
Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)
Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5754

CARTREF HENOED
Y Foelas
Caernarfon
(0286) 4652

Emyr Jones
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513

Beth am ddysgu dreifio gydag
YSGOL YRRU BETHEL
Cysylltwch â
Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG
671009

CHWARAEON

LLWYDDIANT CAITLIN

Mae Caitlin Wroe, o'r Waunfawr, disgybl yn Ysgol Brynrefail, yn brysur wneud enw iddi ei hun drwy ddilyn, nid ôl troed, ond ôl esgidiau sgîo ei brawd.

Bu'r holl ardal yn ymfalchïo yn llwyddiant Michael, sydd bellach yn bencampwr Prydain ar sgîo'r llethr sych, ond yn ddiweddar y dechreuodd ei chwaer ddod â'r gwobrwyon adref.

Ym mhencapwriaethau ysgolion Cymru, a gynhaliwyd ar Hydref 27ain, bu'n fuddugol yn y cystadlaethau i enethod dan 13 oed, ac yn ail ymysg yr holl enethod. Fe'i dyfarnwyd hefyd y ferch orau ag eithro aelodau carfan tîm Cymru.

Fe ddyfarnwyd y fwyaf o'r ddwy darian a welir yn y llun iddi am ennill tlws Cyfres Cwpan Geest Celtic i rai dan 13 oed. Caitlin enillodd y cyfanswm mwyaf o farciau mewn cyfres o gystadlaethau a gynhaliwyd drwy Gymru.

Fe'i hanrhegwyd â'r lleiaf o'r tariannau am ddod yn ail yng nghystadleuaeth Cyngor Bwrdeistref Arfon i'r ferch mwyaf addawol y flwyddyn ym myd chwaraeon. Fe ystyriwyd y ffaith iddi ennill Victrix Lidorum cyfarfod mabolgampau'r ysgol, ei dawn fel marchogwraig yn ogystal â'i llwyddiant ym myd sgîo.

PYSGOTA | Adroddiad H. P. HUGHES

Mae hi bellach rhwng dau dymor, a rhan fwyaf o'r gwiail wedi eu cadw dros y gaeaf. I'r ychydig rai sydd â'r cyfrifoldeb o warchod buddiannau'r Gymdeithas mae'r gwaith yn parhau — gwaith megis gwneud yn siŵr bod cyflenwad o bysgod ar gael i'r ddeorfa er mwyn sicrhau stocio digonol yn Llyn y Dywarchen am y tymor nesaf. Y mae trin a thrafod y rhenti a dalwn yn faes digon difyr hefyd ac yn rhoi cyfle i sgwrsio â'r tirfeddianwyr. Yr ydym yn ffodus iawn yn yr ardal yma yn agwedd y bobl yma tuag at eu cynefin.

Rhaid diolch yn arbennig i'r criw bach ffyddlon sydd wedi ymgymryd â'r baich o gwblhau y ddeorfa. Trwy eu brwdfrydedd hwy gwelwn heddiw filoedd o wyau y pysgod yn deori ac fe fydd hyn yn sicr yn rhoi hwb bach i natur ar ein dyfroedd ni o leiaf.

Gair i atgoffa'r aelodau y cynhelir y Noson Gwobrwyo yng Ngwersyll Glan Gwna, nos Sadwrn, 7 Rhagfyr, yng nghwmni Dafydd Iwan a'i Fand. Tocynnau £6 yn cynnwys bwyd.

Nos Iau, 12 Rhagfyr, cynhelir y Pwyllgor Blynyddol yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon am 7 o'r gloch.

O ganlyniad i'r haf sych, gweddol yn unig oedd yr helfa ar y Seiont a'r Llyfni, ac ar y Gwyrfai roedd yn dymor truenus. Am y tro cyntaf mewn cof ni chlywsom am un eog yn cael ei ddal yn gyfreithlon. Mae'r pysgotwyr lleol yn beio'r Awdurdod Dŵr am gadw lefel Llyn Cwellyn yn uchel. Mae'r pysgotwyr yn ymwybodol fod y llyn yma yn gronfa ddŵr i ardal sydd yn ehangu yn gyflym (gan gynnwys Sir Fôn) ond mae nhw yn lladd natur er mwyn cyflawni eu dyletswydd. 'Sgwn i os oes yna le i gyfaddawdu neu yn sicr bydd ecoleg un o ddyffrynoedd tlysaf Gwynedd yn cael ei difetha. Os am gadarnhad o hyn edrychwch dros bont Waun ac fe welwch fudreddi carthffosiaeth wedi ei ddal ar frigau'r coed sydd yn y dŵr.

Hoffwn ddiolch i Dafydd Evans, Penisarwaun, y Golygydd Chwaraeon, sydd nawr yn ymddeol, am ei amynedd yn disgwyl am erthygl gennyf a rheiny yn hwyr bob mis! Diolch yn fawr Dafydd.

Nadolig Buan

Daeth y Nadolig ychydig yn fuan eleni i nifer o glybiau a chymdeithasau'r ardal. Yn anffodus, oherwydd nam ar gamera'r *Eco*, ni fu'n bosibl i gynnwys yn y rhifyn yma luniau Mr John Trefor, Hafod Garage, a Mr Densil Jones o'r Grid Cenedlaethol, yn cyflwyno eu cyfraniadau tuag at fws mini i Ysgol Brynrefail, nag ychwaith lun Mr Trefor yn cyflwyno set o ddillad i dîm pêl-droed hŷn yr ysgol, na Mr Danny Roberts, y Bristo, a'i gyfraniad tuag at offer newydd i'r tîm hoci. Gydag ymddiheuriadau, derbyniwch ddiolch calonog yr ysgol a'r holl ardal.

Daeth dau gyflwyniad arall hefyd i sylw gohebyddion yr *Eco*, sef yn gyntaf y rhodd o set o ddillad i dîm pêl-droed dan 12 oed Bethel. Diolchir i Mr Richard Jones, Ysgol Yrru Bethel, am ei haelioni; fe'i gwelir yn y llun isog gyda'r hogia yn eu lifrau newydd.

Yn y llun ar waelod y dudalen mae Mr Bryn Davies a Mr Richard Williams, Ysgrifennydd a Thrysorydd Clwb Pêl-droed Llanrug yn derbyn rhoddion gan Mr Haydn John, Rheolwr Gwety Seiont Manor. Fe ŵyr pawb bellach mai eiddo 'Hamdden', sef un o gwmnïau'r Bwrdd Dŵr yw'r gwesty, ond nid cymaint sy'n gwybod am eu haelioni tuag at y Clwb Pêl-droed lleol. Yn ogystal â chaniatau i'r chwaraewyr ddefnyddio adnoddau'r gwesty, y pwll nofio, sauna a'r offer ymarfer ar delerau mantiesiol dros ben, maent hefyd wedi prynu 20 o fagiau a phedair trac-wisg iddynt. Maent hefyd am noddi pedair gêm gynghrair.

Chwaraeon Ysgol Brynrefail

PÊL-DROED

Fe chwaraewyd dwy gêm gwpan yn ystod y mis, sef Cwpan Cyril Rogers (Bechgyn Bl.1): Ysgol Botwnnog 2, Ysgol Brynrefail 4; Cwpan Ken Phelps (Bechgyn hŷn): Ysgol Brynrefail 0, Ysgol Ffriars 3.

Ar y 3ydd o'r mis, bu Gavin Allen yn chwarae yn Ludlow yn y treialon terfynnol i ddewis tîm dan 18 oed Ysgolion Cymru. Mae ei enw hefyd wedi ei yrru ymlaen ar gyfer y tîm cenedlaethol o dan 16. Efallai mai i'r tîm yma y mae ei siawns gorau o gael ei gapio eleni. **Cymaint yw barn John King, rheolwr Tranmere Rovers, o'i allu nes iddo ei arwyddo eisoes i'r Clwb. Bydd yn ymuno â hwy yr haf nesaf ar ôl gorffen yn yr ysgol.**

PENCAMPWRIAETHAU TRAWS-GWLAD YSGOLION CYMRU

Sadwrn, Tachwedd 16eg, ac fe fanteisiodd nifer o ddisgyblion yr ysgol ar y bws mini newydd gan deithio i'r Drenewydd i gystadlu.

Fe enillodd Colin Jones y râs i'r bechgyn hŷn — mae o'n bencapwr Ysgolion Cymru unwaith eto.

Daeth Alun Vaughan yn 4ydd allan o tua 150 o redwyr — perfformiad rhagorol, yn wir, o'r holl ddisgyblion fu'n cystadlu, 'roedd pob un yn yr hanner uchaf yn eu hadrannau.

NOFIO

Catrin Jones o Lanrug oedd yr unig ddisgybl o'r ysgol i gael ei dewis i gynrychioli tîm Ysgolion Gwynedd ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru. Daeth yn bedwerydd yn y râs nofio ar y cefn i enethod iau.